*Egwyddorion Llywodraethu sy'n diffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru* 1

1. Cyflwyniad 4

2. Pwrpas y Cwmni 6

3. Llywodraethu ac Atebolrwydd 7

Y Cyd-destun Cyfreithiol ........ 7

Rolau a Chyfrifoldebau........ 7

Cyfrifoldebau Gweinidogol 7

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau’r Prif Swyddog Cyfrifyddu 8

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol 8

Y Tîm Partneriaeth 9

Yr Uned Cyrff Cyhoeddus a’r Prif Swyddog Gweithredol 10

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau’r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu’r Cwmni 11

Cyffredinol 11

Cyfrifoldebau’r Prif Weithredwr i Weinidogion Cymru ac i Fwrdd y Cwmni 12

Atebolrwydd i Senedd Cymru 12

Rôl y Prif Weithredwr fel y Prif Swyddog ar gyfer Achosion yr Ombwdsmon 14

Y Bwrdd Cyfarwyddwyr ........ 14

Cydgyfrifoldebau 14

Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd 17

Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd 18

Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd ........ 18

4. Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd 20

Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol........ 20

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 20

Cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 20

Adroddiad Blynyddol i’r Gweinidog 21

5. Trefniadau Archwilio 22

Archwiliad Mewnol ........ 22

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 22

Archwiliad Allanol........ 23

Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru........ 23

Cyffredinol........ 24

Rheoli Staff........................................................................................ 24
Pensiynau a Talu wrth Ennill 26
7. Y Fframwaith Cynllunio 27
Llythyrau Cylch Gwaith ........................................................................ 27
Cynlluniau Busnes ................................................................................ 27
Cynlluniau Corfforaethol........................................................................ 27
Cynlluniau Gweithredol ......................................................................... 27
Cynllunio'r Gyllideb ............................................................................... 29
8. Rheoli Perfformiad 31
Gofynion Adrodd ................................................................................... 31
Adrodd Eithriadau ................................................................................. 31
Is-gwmnïau a Chyd-fentrau.................................................................... 31
9. Cyllidebau Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf 33
Gwariant 33
Cyllidebau Incwm ac Adnoddau............................................................. 34
Grantiau, Benthyciadau a Chontractau sy'n cael eu dyfarnu gan y Cwmni i Endidau eraill............................................................................... 35
Rheoli Cymorthdaliadau'r DU................................................................. 35
10. Cymorth Grant a Rheoli Arian Parod 37
Cymorth Grant....................................................................................... 37
Balansau Arian Parod ........................................................................... 37
Yn ystod y Flwyddyn 37
***Diwedd y Flwyddyn*** 38
***Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc*** 38
11. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd 39
Sylfaen Tystiolaeth................................................................................. 39
Adolygiadau wedi'u Teilwra.................................................................... 39
Atodiad A 41
Y Swyddogaeth Bartneriaeth a nodir yn y Ddogfen Fframwaith Model ............. 41
Hanfodion Partneriaeth Effeithiol............................................................ 41

Atodiad B – Dirprwyaethau 44

Trefniadau Galw i Mewn Cyrff Cyhoeddus – Trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu 44

Atodiad C 48

Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyaeth a'r Terfynau Dirprwyo ........................ 48

Atodiad Ch: Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu 50

Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog Cyfrifyddu 51

Atodiad D 57

Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau ar draws y Llywodraeth..................... 57

***Egwyddorion Llywodraethu sy'n diffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru***

*Cenhadaeth a Phwrpas ar y Cyd*

**Yn Cyflawni dros Gymru**. Mae gan gwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru rôl allweddol yn llywodraethiant Cymru a chyflawni dyheadau dinasyddion Cymru. O safbwynt Llywodraeth Cymru, prif rôl cwmni o'r fath yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol neu bolisi a chyflawni'r amcanion a sefydlwyd gan Weinidog Cymru gan ddefnyddio cyllid a bennwyd drwy bleidlais gan y Senedd. Cynhelir y berthynas hon drwy drefniant partneriaeth sy'n cael ei reoli ar ran Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru. Gall cwmnïau fod â ffurfiau sefydliadol amrywiol, gan gynnwys elusennau a chyrff lled-farnwrol, a gallant gwmpasu awdurdodaethau y tu hwnt i Gymru. Er eu bod yn parchu'r amrywiaeth hon, mae Gweinidogion yn edrych ar y cwmnïau hyn yn bennaf i gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau pwysig i bobl Cymru ar eu rhan.

**Ffocws ar Ganlyniadau a pherfformiad Cwmnïau**. O fewn y cyfyngiadau a bennwyd gan statud ac ymrwymiadau Gweinidogol, bydd amcanion y cwmni'n cael eu pennu, i'r graddau y bo'n bosibl, yn nhermau canlyniadau sy'n glir, yn berthnasol a heriol, ac sy'n cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFG). Er mwyn hybu arloesedd ac effeithlonrwydd, rhoddir cymaint o hyblygrwydd â phosibl i gwmnïau ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn. Ni ddylai llythyrau cylch gwaith unigol fod yn fwy rhagnodol nag y mae cyfrifoldebau'r cwmni'n ei gwneud yn ofynnol. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith perfformiad asesu cyfraniad y cwmni at gyflawni ei ganlyniadau.

*Perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a'i Chwmnïau*

**Perthnasoedd sydd wedi'u diffinio gan ymddiriedaeth a risg.** Dylai'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, gydag agwedd gymesur at risg. Pan fydd tystiolaeth o berfformiad gwael neu lywodraethiant wan, bydd Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu agwedd fwy rhagnodol, 'ymarferol' at y berthynas. Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod ei swyddogaethau partneriaeth yn perfformio'n effeithiol a'u bod yn cyflawni'r disgwyliadau a nodir yn yr egwyddorion hyn.

**Cydweithrediad effeithiol**. Mae arbenigedd a phrofiad cwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r cwmnïau hyn, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio a chreu 'Tîm Cymru', a cheisio cyfleoedd am gydweithrediad ehangach a dyfnach wrth ddatblygu polisïau, gan gefnogi ei gilydd a dathlu llwyddiant. Dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i arbed arian, nodi effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd ar y cyd ac yn egnïol.

**Cyfathrebu effeithiol**. Mae cwmnïau a Llywodraeth Cymru yn ffurfio teulu estynedig ac yn cynnal agwedd gyson, barchus a cholegol ar gyfer ymgysylltu â'i gilydd yn

gyhoeddus ac yn breifat. Mae pob parti yn ymrwymo i gyfathrebu'n effeithiol, i fod mor agored â phosibl, i rannu gwybodaeth ar sail 'dim materion annisgwyl' ac i reoli materion dadleuol drwy ddialog a negodi.

*Llywodraethiant ac atebolrwydd*

**Bwrdd a Chadeirydd Cwmnïau**. Mae cadeiryddion Byrddau cwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn ffigurau pwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru a byddant yn cael eu penodi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus. Mae byrddau yn atebol i Weinidogion am gyflawni'r amcanion diffiniedig, gan sicrhau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel ac am oruchwylio gweithrediaeth y cwmni, gan gynnwys rôl y Prif Weithredwr neu gyfatebol fel Swyddog Cyfrifyddu'r cwmni.

**Prif rôl y Bwrdd wrth oruchwylio'r Cwmni.** Dylai'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol fod yn fater i Fwrdd y cwmni yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar y Bwrdd, prosesau archwilio mewnol ac allanol a, fel y bo'n briodol, Archwilio Cymru, am sicrwydd. Dylai rôl Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar gyfrifyddu er mwyn cyflawni'r amcanion a'r broses o reoli perthnasoedd rhyngddynt a'r cwmni. Dylai rolau a disgwyliadau clir ar gyfer Gweinidogion, Cadeiryddion, Byrddau, swyddogion gweithredol, Swyddogion Cyfrifyddu, Timau Partneriaeth ac archwilwyr gael eu nodi yn y Ddogfen Fframwaith.

**Rheoli perfformiad**. Er ein bod yn disgwyl perfformiad da, llywodraethu effeithiol a pherthynas barchus fel y norm, rhaid i'n dull gweithredu allu ymateb yn effeithiol i berfformiad gwael neu broblemau eraill. Pan fydd tystiolaeth o berfformiad gwael mewn cysylltiad ag amcanion, rheoli cyllid, effeithiolrwydd y Bwrdd neu agweddau eraill ar lywodraethu, mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl a'r cyfrifoldeb i fod yn fwy ymgysylltiedig a rhagnodol. Bydd rheoli perfformiad yn seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar dystiolaeth o reolaeth fewnol gadarn i gefnogi cyffyrddiad ysgafnach neu, fel arall, i gymhwyso gafael gryfach lle mae risgiau'n cael eu rheoli'n llai boddhaol.

**Dirprwyo**. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu'r cwmni yn parhau i fod yn atebol ar y cyd am arian cyhoeddus sy'n cael ei wario drwy'r cwmni. Fodd bynnag, dylai'r drefn reoli arferol fod mor rhagnodol ag sydd ei angen er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gywir a bod canlyniadau'n cael eu cyflawni'n gost-effeithiol. Bydd cyfrifoldeb ariannol yn cael ei ddirprwyo i'r graddau mwyaf posibl, yn gyson â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu.

**Ymateb i newid**. Mewn byd sy'n newid ac wrth i flaenoriaethau Gweinidogol newid, gallai fod angen ail-lunio swyddogaethau a dulliau cyflenwi gwasanaeth cwmnïau neu, pan fo'n fwy priodol, adolygu perthnasedd parhaus eu hamcanion a'u trefniadau cyfansoddiadol. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiadau sefydliadol neu thematig o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod ei chyrff cyhoeddus, gan gynnwys cyrff hyd braich a chwmnïau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, yn parhau i fod yn addas i'r diben a gwneud cynigion ar gyfer diwygiadau. Dylai pob

cwmni ddisgwyl cymryd rhan mewn Adolygiad wedi'i Deilwra unwaith bob pum mlynedd.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen Fframwaith hon yn nodi'r fframwaith cyffredinol y bydd Adnodd Cyfyngedig (y "**Cwmni**") yn gweithredu ynddo, yn manylu ar y telerau a'r amodau y gall Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i'r Cwmni, yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Cwmni yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Mae Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni yn llywodraethu'r broses o reoli'r Cwmni o ddydd i ddydd.

1.2 Mae talu cyllid craidd i'r Cwmni yn amodol ar berfformiad boddhaol gan y Cwmni mewn cysylltiad â'i holl oblygiadau, fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith hon a'r llythyr cylch gwaith ac unrhyw amodau a gofynion eraill y gallai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, neu unrhyw un o Weinidogion eraill Cymru, gan weithredu'n unol â'r swyddogaethau yn adran 58A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall eu gosod o bryd i'w gilydd.

1.3 Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y gallai gweithgareddau penodol y Cwmni fod yn ddarostyngedig i gyfreithiau neu reoliadau penodol, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006, ac yn cydnabod, os oes unrhyw wrthdaro rhwng y Ddogfen Fframwaith hon ac unrhyw gyfreithiau neu reoliadau perthnasol, y cyfreithiau neu'r rheoliadau hynny fydd yn drech. Bydd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r dehongliad o'r Ddogfen Fframwaith hon yn cael eu datrys gan Weinidogion Cymru yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cwmni.

1.4 Mae gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phob swyddogaeth o'r fath yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol, a heb gynnwys yr holl ystyriaethau amherthnasol. Ni fydd unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys neu ei awgrymu, neu sy'n deillio o dan neu mewn cysylltiad â'r Ddogfen Fframwaith hon yn rhagfarnu, yn cyfyngu neu'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru i arfer, neu ymatal rhag arfer, unrhyw un o'u swyddogaethau mewn ffordd benodol. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw ddeddfwriaeth, boed hynny'n gyfreithiau domestig, yr Undeb Ewropeaidd neu ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau i ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o'r ddeddfwriaeth honno sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

1.5 Mae Gweinidogion Cymru yn aelodau o'r Cwmni, ond bydd y berthynas o ddydd i ddydd gyda'r Cwmni yn cael ei goruchwylio gan y Tîm Partneriaeth.

1.6 Yn ogystal, rhaid i'r corff sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethiant sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru a nodir isod, sy'n ymgorffori'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus sy'n cael eu pennu gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan):

- rhoi’r Dinesydd yn Gyntaf
- gwybod Pwy sy’n gwneud Beth a Pham
- ymgysylltu ag Eraill
- byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus
- meithrin Darpariaeth Arloesol
- bod yn Sefydliad sy’n Dysgu
- sicrhau Gwerth am Arian

1.7 Rhaid i’r corff sicrhau hefyd, wrth gyflawni ei swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru, eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy’n gyson â’r egwyddorion datblygiad cynaliadwy (y “ffyrdd o weithio”) fel yr ymarferwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

1.8 Mae copïau o’r ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol wedi’u darparu yn Llyfrgell Senedd Cymru (y “**Senedd**”) ac maent ar gael i’r cyhoedd drwy wefan y Cwmni.

## 2. Pwrpas y Cwmni

2.1 Cafodd y Cwmni ei sefydlu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Fel corff cyhoeddus, mae'n gweithredu fel asiant darparu i Weinidogion Cymru a'i rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau, fel y'u nodir yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru. Prif bwrpas y Cwmni yw:

> Galluogi dysgwyr, ymarferwyr a rhieni/gofalwyr yng Nghymru i gael mynediad at adnoddau addysgol a deunyddiau ategol o ansawdd uchel, yn y Gymraeg a Saesneg, i gefnogi dysgu ac addysgu Cwricwlwm Cymru a'i gymwysterau, fel y nodir yn ei Erthyglau Cymdeithasu.

2.2 Mae pwrpas a chylch gwaith y Cwmni wedi'u nodi yn is-gymal amcanion Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, fel a ganlyn:

> Cyflawni swyddogaethau'r Aelod-warantwr, gan gynnwys y rhai o dan Adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 1 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: -
>
> - datblygu, cyfleu a gweithredu'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer darparu adnoddau a deunyddiau Cymraeg a Saesneg i gefnogi Cwricwlwm Cymru a'i gymwysterau.
> - gweithio gyda phartneriaid ar draws sectorau i ddarparu adnoddau a deunyddiau ategol o ansawdd uchel;
> - sicrhau cydlyniant a sicrwydd ansawdd wrth gomisiynu a chynhyrchu adnoddau a deunyddiau ategol;
> - buddsoddi i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd mewn cyhoeddi addysgol dwyieithog yng Nghymru;
> - hyrwyddo a chynyddu mynediad i'r eithaf i adnoddau addysgol a deunyddiau ategol, gan sicrhau mynediad cyfartal yn y Gymraeg a Saesneg.
>
> Ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu o gwbl sydd, ym marn yr Aelod-warantwr, yn angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn hyrwyddo'r Amcanion gan gynnwys, heb gyfyngiad, darparu unrhyw gymorth y mae'r Aelod Gwarantwr ei angen mewn perthynas â hynny.

2.3 Gan weithio gyda'r Cwmni, nododd Gweinidog Cymru eu hamcanion strategol yn eu llythyr cylch gwaith. Rhaid i'r Cwmni ddatgan sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol yn ei Strategaeth a'i gynlluniau gweithredu blynyddol (gweler paragraff 7.2 isod).

2.4 Bydd yr amcanion strategol a'r cynllun busnes yn weithredol ar gyfer hyd tymor y Llywodraeth y cawsant eu pennu ynddo ond byddant yn dod i ben os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diddymu, uno neu newid swyddogaeth y Cwmni.

## 3. Llywodraethu ac Atebolrwydd

### Y Cyd-destun Cyfreithiol

3.1 Mae pwerau a dyletswyddau'r Cwmni wedi'u nodi yn eu Herthyglau Cymdeithasu ac yn Neddf Cwmnïau 2006 .

3.2 Mae'r Cwmni yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Gweinidogion Cymru yw'r unig aelod-warantwr. Yn nhermau ei berthynas â Llywodraeth Cymru, bydd rhai o weithgareddau'r Cwmni wedi'u cwmpasu o dan yr egwyddorion Teckal sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Caffael 2023. Bydd y Cwmni'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon i'r graddau y bydd yn berthnasol iddynt.

3.3 Mae'r Cwmni yn eiddo llwyr i Weinidogion Cymru. Rhaid iddynt ymgymryd â'i weithgareddau yn unol â:

- ei wrthrychau, fel y'u nodwyd yn eu Herthyglau Cymdeithasu
- pob cyfraith a rheoliad perthnasol
- telerau unrhyw ofynion rheoli Is-gwmni
- ei lythyr cylch gwaith
- ei gynllun busnes, fel y'i cymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;
- yr egwyddorion, rheolau a'r canllawiau a nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

### Rolau a Chyfrifoldebau

#### *Cyfrifoldebau Gweinidogol*

3.4 Mae Prif Weinidog Cymru wedi dyrannu cyfrifoldeb am oruchwylio'r Cwmni i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (y "**Gweinidog**"). Yn gyffredinol, y Gweinidog sy'n arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Cwmni ac yn y pen draw mae'n atebol i'r Senedd am ei gweithgareddau a'i ddefnydd o adnoddau. Nid yw'r Gweinidog yn gyfrifol am faterion gweithredol o ddydd i ddydd, sy'n gyfrifoldeb y Cwmni.

3.5 Y Gweinidog sy'n pennu'r fframwaith polisi ar gyfer y Cwmni a bydd yn cyfarfod â Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni (y "**Bwrdd**") bob blwyddyn i adolygu perfformiad a thrafod gweithgareddau presennol ac yn y dyfodol.

3.6 Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys:

- Cytuno ar amcanion a nodau strategol a thargedau allweddol y Cwmni
- Cytuno ar y gyllideb i'w dyrannu i'r Cwmni yn dilyn cymeradwyaeth gan y Senedd

- Penodi'r Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd, a (drwy weithio gyda'r Cadeirydd) chymeradwyo penodiad y Prif Swyddog Gweithredol
- Asesu perfformiad y Cadeirydd a phennu'r paramedrau ar gyfer asesu perfformiad Aelodau'r Bwrdd.

3.7 Gall y Gweinidog, lle y bo'n briodol, weithredu drwy swyddogion yn Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

***Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu***

3.8 Y Prif Swyddog Cyfrifyddu (PSC) ar gyfer Gweinidogion Cymru yw'r Ysgrifennydd Parhaol i Weinidogion Cymru. Mae gan y PSC gyfrifoldebau wedi'u pennu gan Drysorlys Ei Fawrhydi ac maent yn atebol i'r Senedd (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) y Senedd ac i Senedd y DU (drwy Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus) ar gyfer:

- rheoleidd-dra a phriodoldeb cyllid Llywodraeth Cymru
- cadw cyfrifon priodol Gweinidogion Cymru
- defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a bleidleisiwyd i'r Cwmni o dan Gynnig y Gyllideb Flynyddol y Senedd

3.9 Mae'r PSC hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheolaethau rheoli eraill sydd wedi'u cyflwyno ar draws Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus.

***Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol***

3.10 Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru yn cael eu cynorthwyo gyda'u dyletswyddau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg, sydd wedi'i benodi ganddynt fel y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ("**SCY**") ac y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt am yr Isadran y mae Tîm Partneriaeth y Cwmni yn rhan ohono.

3.11 Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y SCY, sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r PSC (a thrwy'r PSC, y Gweinidog a'r Senedd) am sicrhau:

a) bod y rheolaethau ariannol rheoli eraill a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn briodol a digonol i ddiogelu arian cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, y rhai a ddefnyddir gan y Cwmni i gydymffurfio â gofynion priodoldeb a rheolaeth ariannol dda
b) bod datganiad digonol o'r berthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cwmni (hynny yw, y Ddogfen Fframwaith hon) a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd; a sicrhau bod ansawdd perthynas Llywodraeth Cymru gyda'r Cwmni yn parhau i fod yn dda

c) bod yr amodau sy’n gysylltiedig â’r adnoddau neu’r cymorth grant a ddyfernir yn cydymffurfio â thelerau’r Gyllideb, a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â’r amodau hynny gan y Cwmni

3.12 Mae’r SCY hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i:

- mynd i’r afael â phroblemau sylweddol yn y Cwmni, gan wneud ymyriadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol
- hysbysu’r Cwmni am bolisi perthnasol y llywodraeth mewn dull amserol
- cynnal asesiad rheolaidd o’r risgiau i amcanion a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a’r Cwmni
- monitro gweithgareddau’r Cwmni a’i sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd a ffurflenni rheolaidd
- tynnu sylw Bwrdd llawn y Cwmni at unrhyw bryderon ynglŷn â gweithgareddau’r Cwmni sy’n galw am esboniadau a sicrwydd y bydd camau adferol yn cael eu cymryd
- dynodi Prif Weithredwr y Cwmni fel ei Swyddog Cyfrifyddu

3.13 Y SCY sy’n gyfrifol am gynghori’r Gweinidog ar:

- amcanion strategol priodol ar gyfer y Cwmni mewn cysylltiad â nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru a dangosyddion cyflawni a pherfformiad allweddol
- cyllideb briodol ar gyfer y Cwmni mewn cysylltiad ag egwyddorion gwariant cyffredinol y Grŵp
- pa mor llwyddiannus yw’r Cwmni yn cyflawni ei amcanion strategol o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog ac a yw'n darparu gwerth am arian

3.14 Rhaid i’r SCY sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith.

***Y Tîm Partneriaeth***

3.15 Mae’r SCY yn dirprwyo cyfrifoldeb am reoli perthnasoedd o ddydd i ddydd rhwng Llywodraeth Cymru a’r Cwmni i Ddirprwy Gadeirydd yr Isadran Cwricwlwm ac Asesu (“**Dirprwy Gyfarwyddwr**”) sy’n arwain y Tîm Partneriaeth yn Llywodraeth Cymru.

3.16 Mae’r Dirprwy Gyfarwyddwr yn arwain y Tîm Partneriaeth yn Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio’n agos gyda Phrif Swyddog Gweithredol y Cwmni ac maent yn atebol i’r SCY. Hwy hefyd yw prif ffynhonnell cyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â’r Cwmni ac maent yn cynorthwyo’r PSC a’r SCY gyda’u cyfrifoldebau tuag at y Cwmni.

3.17 Mae eu cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- monitro perfformiad gweithredol ac ariannol y Cwmni yn erbyn y cynllun busnes a chynghori Gweinidogion Cymru fel y bo'n briodol
- goruchwyliaeth ariannol, gan sicrhau bod y Cwmni yn rheoli ac yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol a neilltuwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru
- darparu datganiad sicrwydd blynyddol i'r SCY ar eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd y trefniant rheoli sydd mewn grym yn y Cwmni
- rheoli perthynas Llywodraeth Cymru gyda Chadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol ac uwch dîm Adnodd, gan gynnwys darparu cyswllt rhwng Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd ac uwch dîm Adnodd a'r Gweinidog
- cynnal trafodaethau priodol ac amserol gyda'r Cwmni ar flaenoriaethau Gweinidogol, blaengynllunio a phennu cyllideb gysylltiedig

3.18 Pwynt cyswllt arferol y Cwmni ar gyfer cysylltu â Llywodraeth Cymru yw'r Pennaeth Cyflawni Polisi yn y Tîm Partneriaeth. Dylai'r Cwmni eu hysbysu os ydynt yn bwriadu cyfarfod â maes arall o Lywodraeth Cymru.

3.19 Bydd swyddogion y Tîm Partneriaeth yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion y Cwmni i adolygu ei berfformiad ariannol yn erbyn cynlluniau, a'i gyflawniad yn erbyn targedau. Bydd y corff yn darparu cyfrifon rheoli i'r Tîm Partneriaeth yn chwarterol o leiaf. Dylai gwybodaeth am y cyfrifon rheoli gynnwys ffigurau gwirioneddol a rhagolygon ar gyfer incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau ac ecwiti. Bydd y Tîm Partneriaeth hefyd yn manteisio ar y cyfle i lywio ac egluro datblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y Cwmni. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gyfrifoldebau'r Tîm Partneriaeth yn **Atodiad A**.

***Yr Uned Cyrff Cyhoeddus a'r Prif Swyddog Gweithredol***

3.20 Prif Swyddog Gweithredol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus sydd o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i'r rheolaethau perthnasol ac y rhoddir rhyddid priodol iddynt reoli eu cyfrifoldebau.

Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn:

- sicrhau bod pob cwmni newydd wedi'i sefydlu'n briodol a bod ganddynt drefniadau a dogfennau priodol ar waith, fel y Ddogfen Fframwaith hon, drwy gadarnhau Cyngor Gweinidogol cyn eu cyflwyno i Weinidogion;

- darparu cyngor a gwybodaeth i dimau partneriaeth ar atebolrwydd a materion llywodraethu, gan gynnwys dogfennau rheoli a phartneriaeth priodol mewn ymgynghoriad â'r timau cyllid a llywodraethu corfforaethol, er mwyn sicrhau bod pob cwmni presennol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau llywodraethu*;*

- sicrhau bod pob penodiad Gweinidogol i swyddi anweithredol neu swyddi cyfatebol ar fyrddau cwmnïau Llywodraeth Cymru, pan fydd y rhain yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus o dan y Gorchymyn Penodiadau Cyhoeddus yn y Cyngor, yn bodloni gofynion y Cod

Llywodraethu neu, lle nad yw'r Cod yn berthnasol, yn unol ag arfer gorau ac egwyddorion y Cod;

- sicrhau bod penodiad Prif Weithredwyr ac uwch aelodau o staff eraill gan y corff, neu iddo, yn cyflawni egwyddorion y Cod ac arfer gorau;
- cadarnhau bod pob system a chynnig ar gyfer setliadau cyflog blynyddol yn cyflawni gofynion y cylch gwaith cyflog blynyddol a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol, cydraddoldeb cyflog a materion eraill;
- sicrhau bod tâl aelodau anweithredol y bwrdd yn adlewyrchu'r cyfraniad a wneir ganddynt, gan gynnal rheolaeth ar gostau ac adlewyrchu gwahanol gyfrifoldebau gwahanol gyrff;
- ystyried unrhyw gynigion sy'n ymwneud â darpariaeth pensiwn, taliadau iawndal neu gynlluniau diswyddo. Bydd angen cymeradwyaeth Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Llywodraeth Cymru, ar gyfer pob cynllun o'r fath sy'n seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cyn cymryd unrhyw gamau.

## Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni

### *Cyffredinol*

3.21 Mae Prif Weithredwr y Cwmni yn adrodd i Gadeirydd y Cwmni. Bydd y Prif Weithredwr yn cael ei benodi fel arfer fel Swyddog Cyfrifyddu'r (SC) corff, fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gallai fod angen penodi cyflogai arall o'r corff fel Swyddog Cyfrifyddu, ar sail rhan amser neu barhaol. Fel SC, maent yn bersonol gyfrifol am stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano; gweithrediadau o ddydd i ddydd a rheoli'r Cwmni; ac am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"*. Gall cyflogeion y Cwmni gynorthwyo'r Prif Weithredwr i gyflawni ei rôl. Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo'r gwaith o weinyddu'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd i'r cyflogeion hynny, ond hwy sy'n parhau i fod yn gyfrifol ac atebol yn bersonol o dan delerau eu Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu. Mae pob SC hefyd yn atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol fel PSC i Lywodraeth Cymru.

3.22 Rhaid i'r Bwrdd fod yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau a briodolwyd i'r Prif Swyddog Gweithredol fel SC a'u bod yn rhoi sylw iddynt.

3.23 Mae manylion pellach am gyfrifoldebau penodol SC y Cwmni, gan gynnwys eu hatebolrwydd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a Bwrdd y Cwmni, wedi'u nodi yn y Memorandwm *"Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cwmni Llywodraeth Cymru"*, y bydd y SCY wedi'i anfon at y SC. Atodir Memorandwm enghreifftiol yn **Atodiad C** er gwybodaeth.

***Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i Weinidogion Cymru ac i Fwrdd y Cwmni***

3.24 Mae Prif Weithredwr y Cwmni yn cael ei benodi a'i gyflogi gan y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog. Y Prif Weithredwr yw prif gynghorydd y Bwrdd ar gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n atebol i'r Bwrdd. Rôl y Prif Weithredwr yw darparu arweinyddiaeth weithredol i'r Cwmni a sicrhau bod nodau ac amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni a bod swyddogaethau'r Cwmni yn cael eu cyflawni, a bod eu targedau yn cael eu cyflawni. Dylai'r SC mewn sefydliad gael eu cefnogi gan Fwrdd sydd wedi'i strwythuro yn unol ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Cymru a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

***Atebolrwydd i Senedd Cymru***

3.25 Mae SC y cwmni yn atebol i'r Senedd ar gyfer y canlynol:

- llofnodi'r cyfrifon a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw ar gyfer y cyfrifon
- sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
- llofnodi'r Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
- rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynychu gwrandawiadau, ar faterion sy'n gysylltiedig â'r cwmni a gyflwynir i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, pwyllgorau eraill y Senedd, Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus, neu Bwyllgorau Seneddol eraill, i roi cyfrif am stiwardiaeth y cwmni o adnoddau cyhoeddus;
- gweithredu ar unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgorau hynny sydd wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru

***Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru***

3.26 Mae SC y Cwmni yn atebol i Lywodraeth Cymru, drwy ei Thîm Partneriaeth, ar gyfer y canlynol:

- sefydlu, mewn cytundeb â'r Tîm Partneriaeth, cynlluniau corfforaethol a gweithredol y Cwmni, gan ystyried cyfraniad y Cwmni tuag at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- hysbysu'r Tîm Partneriaeth ynglŷn â chynnydd o ran helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru a dangos sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny
- sicrhau bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro ar berfformiad a chyllid yn cael eu darparu i'r Tîm Partneriaeth, a bod y Tîm yn cael eu hysbysu'n

brydlon os bydd gorwariant neu danwariant yn debygol, a bod camau cywirol yn cael eu cymryd

- hysbysu Llywodraeth Cymru (neu gymryd y camau gweithredu rhaghysbysu priodol) pan fydd angen gwneud penderfyniadau sy'n cyflawni'r meini prawf yn **Atodiad B**
- sicrhau bod y Tîm Partneriaeth yn cael eu hysbysu ynglŷn â phroblemau sylweddol cyn gynted â phosibl
- defnyddio'r "ffyrdd o weithio" Llesiant;
- darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i pherfformiad a'i gwariant y gallai fod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru ofyn amdani

***Cyfrifoldebau Bwrdd y Cwmni***

3.27 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- cynghori'r Bwrdd ar gyflawni ei gyfrifoldebau , fel y'u nodir yn Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog neu gyfathrebiad arall gyda'r Cwmni; ac unrhyw ganllawiau eraill y gellir eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd
- cynghori'r Bwrdd ar berfformiad y Cwmni yn erbyn eu nodau a'u hamcanion
- sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth lawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam wrth wneud a gweithredu eu penderfyniadau, a bod technegau gwerthuso ariannol addas yn cael eu dilyn
- sicrhau system llywodraethu corfforaethol a sicrwydd da drwy'r Cwmni cyfan, yn unol ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU
- sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei chynnal er mwyn hysbysu penderfyniadau ar gynlluniau ariannol a gweithredol a chynorthwyo yn y gwaith o gyflawni'r amcanion a'r targedau
- sicrhau bod rheolaethau rheolaeth fewnol ac ariannol yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys mesurau i ddiogelu rhag twyll a dwyn (mae angen i fesurau o'r fath ymgorffori system gynhwysfawr o awdurdodau dirprwyedig mewnol)
- sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am y Cwmni, gan gynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer cwynion chwythu'r chwiban
- datblygu a chynnal polisïau rheoli personél priodol, ac y bydd pob un o'r rhain ar gael yn gyfleus i bob aelod o staff
- cymryd camau gweithredu, fel y bo'n briodol, yn unol â thelerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu os bydd y Bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried camau gweithredu sy'n cynnwys trafodiad y mae'r Prif Weithredwr yn credu fyddai'n mynd yn groes i ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra; nid yw'n cynrychioli

gweinyddiaeth ddoeth neu ddarbodus neu effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd; mae amheuaeth ynglŷn â dichonoldeb; neu mae'n anfoesegol

3.28 Rhaid i gydraddoldeb a gwaith teg fod yn ganolog wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff mae'n eu hariannu weithredu safonau cyflogaeth moesegol. Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod trefniadau cyflog yn y corff yn gyfartal i bawb, yn briodol, tryloyw, yn darparu gwerth am arian ac yn gwobrwyo staff yn deg am y gwaith maent yn ei wneud.

3.29 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am benderfyniadau staffio yn y Cwmni. Mae hyn yn cynnwys polisïau telerau ac amodau staff; cynnig cynllun pensiwn, a sicrhau arfarniad swydd cadarn, priodol a theg a bod arferion recriwtio yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, dylid hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch cynigion newidiadau penodol, gan gynnwys trefniadau dileu swyddi – gweler **Atodiad B** am fanylion.

3.30 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol yn alinio ag egwyddorion cyflog sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Dylid adrodd unrhyw newidiadau i gyflog i'r Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd, drwy'r Uned Cyrff Cyhoeddus – gweler **Atodiad** B. Rhaid i unrhyw gynigion i wneud newidiadau y tu hwnt i'r egwyddorion cyflog gael eu cymeradwyo gan Weinidogion.

### ***Rôl y Prif Weithredwr fel y Prif Swyddog ar gyfer Achosion yr Ombwdsmon***

3.31 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ddelio ag achosion sy'n cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Y Bwrdd Cyfarwyddwyr

3.32 Penodir cyfarwyddwyr y Cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a deddfwriaethau cysylltiedig ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni.

3.33 Penodir Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan y Gweinidog. Pan fydd y penodiadau hyn yn rhai sy'n cael eu rheoleiddio o dan Orchymyn yn y Cyfrin Cyngor ar Benodiadau Cyhoeddus <https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2023/12/2023-2-Public-Appointments-Order-In-Council.pdf>, maent i'w gwneud yn unol â Chod Ymarfer <https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/regulating-appointments/governance-code/> y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Pan na fydd y rhain wedi'u rheoleiddio, anogir y Cwmni i ddilyn egwyddorion y Cod.

### ***Cydgyfrifoldebau***

3.34 Yn ogystal â phwerau a dyletswyddau cyfarwyddwyr a nodir yn Neddf Cwmnïau 2006, yr Erthyglau Cymdeithasu, a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, rôl y Bwrdd yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol i’r Cwmni, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol
- hybu safonau uchel cyllid cyhoeddus, cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian
- sicrhau bod gweithgareddau’r Cwmni yn cael eu cynnal yn effeithlon ac effeithiol ac mewn dull sy’n gyson â’r “pum ffordd o weithio” (fel yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol);
- monitro perfformiad i sicrhau bod y Cwmni yn cyflawni eu nodau, eu hamcanion a’u targedau perfformiad yn llawn
- hybu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

3.35 Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am:

- sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol y Cwmni yn unol â’u pwrpas cyffredinol, y nodau Llesiant ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog
- sicrhau bod strategaethau yn cael eu datblygu ar gyfer cyflawni amcanion y Cwmni mewn cydweithrediad â Gweinidogion Cymru, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, er enghraifft cyflogeion, cwsmeriaid a darparwyr cyllid
- sicrhau bod y Gweinidog a’r Tîm Partneriaeth yn cael eu hysbysu’n llawn am unrhyw newidiadau sy’n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Cwmni neu ar gyflawniad eu targedau, a chamau sydd eu hangen i ddelio â newidiadau o’r fath
- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol ynglŷn â’r defnydd o arian cyhoeddus
- sicrhau bod y Cwmni’n gweithredu o fewn cyfyngiadau eu hawdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig a gymeradwywyd gyda’r Tîm Partneriaeth, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd o arian cyhoeddus
- sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, bod y Cwmni’n ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- sicrhau eu bod yn derbyn ac yn adolygu gwybodaeth ariannol yn rheolaidd sy’n gysylltiedig â’r broses o reoli’r Cwmni
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybod mewn modd amserol am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar lefel yr adnoddau sydd ei angen yn y dyfodol, ac unrhyw newidiadau polisi neu arfer a allai fod â goblygiadau ariannol eang

- cymryd camau unioni priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau o'r fath sydd â goblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r Tîm Partneriaeth ynghylch yr un peth
- arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i helpu'r Bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill;
- gwneud uwch benodiadau i swyddi gweithredol ac anweithredol i'r Bwrdd, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae angen cymeradwyaeth Weinidogol cyn penodi, yn unol â'r matrics dirprwyaethau yn **Atodiad B**
- sicrhau bod y Cwmni yn ystyried cyfle cyfartal wrth gymeradwyo polisïau a gwneud penderfyniadau;
- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ar reoli risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, archwilio mewnol, archwilio allanol a rheolaeth fewnol yn unol â gofynion statudol a rheoliadol perthnasol a, lle y bo'n berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r sector

3.37 Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am:

- enwebu aelod o'r Bwrdd, gweithredol neu anweithredol, fel yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod asedau a risgiau gwybodaeth yn y sefydliad yn cael eu rheoli fel proses fusnes yn hytrach na mater technegol. Bydd y SIRO yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes yn cael eu hamlygu i'r Bwrdd ac yn cael sylw
- glynu wrth y Fframwaith Polisi Diogelwch a glynu wrth Diogelwch Swyddogaeth y Llywodraeth Standard GovS 007: Security
- cwblhau Gwiriad Iechyd Diogelwch Adrannol blynyddol Swyddfa'r Cabinet i'w ddychwelyd i SIRO Llywodraeth Cymru
- sicrhau ardystiad annibynnol o drefniadau diogelwch i safon Cyber Essentials Plus ac IASME

3.38 I wneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddynt sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ("ARAC") wedi'i gadeirio gan aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd) i ddarparu cyngor annibynnol iddynt. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei hun ynghylch effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg.

3.39 Nid yw cyfrifoldeb personol y Prif Swyddog Gweithredol fel SC i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn lleihau cyfrifoldeb aelodau'r Bwrdd mewn unrhyw ffordd, sydd â dyletswydd i bob un weithredu mewn ffordd sy'n

hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus a sicrhau bod gweithgareddau'r Cwmni'n cael eu cynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol. Ni ddylai'r Bwrdd roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r Prif Swyddog Gweithredol sy'n gwrthdaro â'u dyletswyddau fel SC y Cwmni.

3.40 I'r graddau a ganiateir gan Ddeddf Cwmnïau 2006, gall y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i'w staff ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac atebol am yr holl faterion hyn yn y pen draw. Rhaid i'r Cwmni gynnal rhestr o faterion i'w penderfynu gan eu bwrdd yn ogystal â chynllun dirprwyo wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

3.41 Bydd y Cadeirydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru drwy Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, yn cael eu cynrychioli yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol, neu eu dirprwy.

3.42 Rhaid i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw a rhaid iddynt gyhoeddi eu haelodaeth, eu hagendâu a'u cofnodion ar eu gwefan.

***Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd***

3.43 Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog ac i'r Bwrdd a gellir eu dwyn i gyfrif gan y Senedd hefyd. Rhaid i gyfathrebiadau rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog, yng nghwrs busnes arferol, gael eu cynnal drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod aelodau eraill y bwrdd yn cael eu hysbysu am bob cyfathrebiad o'r fath.

3.44 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Cwmni yn cael eu cynnal gyda gonestrwydd. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd wneud trefniadau i gyfathrebu a dosbarthu'r polisïau a'r camau gweithredu hyn drwy'r Cwmni cyfan.

3.45 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau arweinyddiaeth penodol dros:

- ffurfio strategaethau'r Bwrdd
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion statudol a rheolaeth ariannol a phob canllaw perthnasol, gan gynnwys canllawiau sy'n cael eu darparu gan Weinidogion Cymru
- hybu defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill
- sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethiant;
- cynrychioli safbwyntiau'r Bwrdd i'r cyhoedd

3.46 Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth gyflawn am delerau eu penodiad a'u dyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau

- sicrhau, ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, eu bod yn derbyn hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ofynion rheolaeth ariannol ac adrodd cyrff y sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arfer y sector preifat a'r sector cyhoeddus

  sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd priodol o sgiliau a chefndiroedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru orau ar gyfer llywio busnes y Cwmni

- mewn achosion pan fydd angen i'r Gweinidog wneud penodiadau i swyddi gwag, cynghori'r Gweinidog ar anghenion y Cwmni a sut y gallai'r Bwrdd adlewyrchu amrywiaeth Cymru orau
- asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru
- sicrhau Cod Ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau'r bwrdd ar waith a'i fod yn gyson â Chod model Llywodraeth Cymru

***Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd***

3.47 Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau'r Bwrdd:

- cydymffurfio bob amser â Chod Ymddygiad y Cwmni ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a phob rheol berthnasol sy'n gysylltiedig â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau
- peidio camddefnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chaffael yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er budd personol neu wleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle gwasanaeth cyhoeddus i hybu eu buddiannau preifat neu rai personau neu sefydliadau y mae ganddynt berthynas â nhw
- cydymffurfio â rheolau ar dderbyn rhoddion a lletygarwch, a buddiannau busnes allanol
- datgan pob gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol i'r Cadeirydd a diweddaru'r wybodaeth hon o leiaf yn flynyddol neu pan fydd amgylchiadau'n newid
- gweithredu'n ddidwyll bob amser ac er budd gorau'r Cwmni

**Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd**

3.48 Er na ddylent eu mynychu'n rheolaidd, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r hawl i'w swyddogion fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Cwmni mewn capasiti cynghori a/neu arsylwi. Gall y Bwrdd eu gwahodd hefyd i fynychu i ddarparu cyngor neu wybodaeth benodol.

3.49 Rhaid i'r Cwmni ddarparu agendâu a phapurau ar gyfarfodydd y Bwrdd ymlaen llaw i'w Tîm Partneriaeth er mwyn iddynt allu ystyried a fydd swyddogion yn

dymuno eu mynychu a chyfrannu at y trafodaethau. Dylid darparu papurau i Lywodraeth Cymru yr un pryd ag y byddant yn cael eu darparu i aelodau'r Bwrdd. Dylai'r Cwmni hefyd dynnu sylw'r tîm partneriaeth at unrhyw faterion newydd, dadleuol, ôl-effeithiol neu anodd eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd.

3.50 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw gyfraniad i broses gwneud penderfyniadau unrhyw Fwrdd. Rhaid datblygu cytundeb ffurfiol sy'n manylu rôl swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n mynychu cyfarfodydd y bwrdd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 4. Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd

### Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol

4.1 Mae'r gofynion cyfrifyddu ac adrodd statudol ar gyfer y Cwmni wedi'u nodi yn Neddf Cwmnïau 2006. Bydd y Cwmni yn paratoi, yn cymeradwyo, yn llofnodi ac yn cyhoeddi ei ddatganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â'u sector.

### *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*

4.2 Rhaid i'r Cwmni baratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, gan gynnwys Datganiad Llywodraethiant, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

4.3 Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi cyfrifon, mae angen cynnal cofrestrau o'r canlynol:

- Rhoddion a dderbyniwyd ac a roddwyd
- Lletygarwch a dderbyniwyd ac a gynigiwyd
- Colledion a thaliadau arbennig fel y'u disgrifiwyd yn *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"*

Mae'r cofrestrau hyn yn galluogi i'r gofynion datgelu yn Neddf Cwmnïau 2006, Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* gael eu cyflawni.

4.4 Yn ogystal â gofynion y Ddeddf Cwmnïau, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:

- amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad y Cwmni yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol
- adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a phethau eraill y gellir eu cyflawni
- adrodd ar weithgareddau unrhyw gyrff corfforaethol o dan eu rheolaeth;
- nodi'r berthynas rhwng y Cwmni a Gweinidogion Cymru fel aelodau o'r Cwmni mewn ffordd glir a dealladwy.

### *Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*

4.5 Cyn gynted ag y bydd yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, rhaid i'r Cwmni gysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ("**ACC**") neu archwilydd allanol arall, lle y bo'n briodol, a'r Tîm Partneriaeth ynglŷn â'r union amserlen ar gyfer gosod a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

4.6 Rhaid i'r Cwmni gyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi, yn ogystal â llythyr cynrychiolaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd allanol arall lle y bo'n

briodol. Rhaid anfon dau (2) gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi at y Tîm Partneriaeth hefyd yn electronig neu fel copi papur.

4.7 Pan fydd ACC yn gweithredu fel yr archwilydd allanol, rhaid i ACC gyflwyno'r cyfrifon gerbron y Senedd.

4.8 Gallai fod angen i'r Cwmni ddarparu gwybodaeth benodol hefyd ar ei gyfrifon i broses Cyfrifon Llywodraeth Gyfan, a chaniatáu asesiad i weld a yw'r corff wedi'i gynnwys o fewn y ffiniau cyfrifyddu ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae manylion amseriad a chwmpas y wybodaeth ofynnol yn cael ei chyfleu'n flynyddol gan swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru drwy rwydwaith Penaethiaid Adnoddau cyrff cyhoeddus. Rhaid i'r tîm partneriaeth ddarparu gwybodaeth cyfrifon rheoli yn chwarterol o leiaf.

4.9 Pan fydd y corff wedi'i gynnwys o fewn y ffin gyfrifyddu ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, rhaid darparu cyfrifon drafft i swyddogaeth Gyllid Llywodraeth Cymru mewn ffordd amserol, gan gytuno ar amserlenni yn ystod y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, rhaid darparu'r cyfrifon archwiliedig ac ISA 260 i swyddogaeth Gyllid Llywodraeth Cymru. Pan fydd camliniad rhwng polisïau cyfrifyddu'r corff a pholisïau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, dylid darparu crynodeb o effaith y camliniad. Pan dderbynnir cais gan swyddogaeth Gyllid Llywodraeth Cymru, dylid darparu cadarnhad ar gyfer datgeliadau penodol Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

***Adroddiad Blynyddol i'r Gweinidog***

4.10 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Cwmni yn cyflwyno adroddiad o'i weithgareddau i'r Gweinidog. Trafodir union fformat yr adroddiad blynyddol cyhoeddedig gyda'r Tîm Partneriaeth, ond dylai ddangos, o leiaf, sut mae'r Cwmni wedi:

- cyflawni ar yr amcanion a bennwyd ar eu cyfer gan y Gweinidog;
- defnyddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynnydd a wnaed i gyfrannu at y saith nod llesiant

4.11 Ar ôl ei gyflwyno i'r Gweinidog, dylai'r Cwmni gyhoeddi ei adroddiad er mwyn i'r Senedd, cleientiaid eraill a'r cyhoedd allu barnu ei lwyddiant o ran cyflawni ei dargedau.

## 5. Trefniadau Archwilio

### Archwiliad Mewnol

***Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg***

5.1 Rhaid i'r Cwmni sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ("**ARAC**") o'u Bwrdd i gynghori eu Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ar ddigonolrwydd trefniadau yn y sefydliad ar gyfer archwiliad mewnol, archwiliad allanol a materion llywodraethu corfforaethol. Wrth sefydlu ei Bwyllgor, dylai'r corff gyfeirio at y canllawiau yn Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd, a bydd yn atebol iddynt, fel is-bwyllgor o'r Bwrdd hwnnw (nid y Cadeirydd), gydag aelodaeth gwbl anweithredol. Bydd y Pwyllgor yn rhannu copïau o gofnodion ei gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, ac mae gan ei swyddogion hawl i fynychu unrhyw gyfarfodydd y Pwyllgor os bydd amgylchiadau'n mynnu hynny, fel yr esboniwyd ym mharagraffau 3.48 – 3.50.

5.2 Rhaid i'r Cwmni:

- sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwiliad mewnol yn unol â'r amcanion, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-internal-audit-standards
- sicrhau, pan fydd y swyddogaeth archwilio yn cael ei darparu'n fewnol, bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer adolygiadau ansawdd allanol o leiaf unwaith bob pum (5) mlynedd ac yn unol â Safonau Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a all ddibynnu ar yr adolygiadau hyn i ddarparu sicrwydd ar ansawdd archwiliad mewnol y Cwmni
- yn dilyn cymeradwyaeth gan SC y Cwmni ac ARAC, cyflwyno'r strategaeth archwilio, cynlluniau archwilio cyfnodol ac adroddiad archwilio blynyddol, gan gynnwys barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwiliad Manwl ar reoli risg, rheolaeth a llywodraethu i'r Tîm Partneriaeth yn flynyddol
- hysbysu Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl ynglŷn ag unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl ei drefniadau archwiliad mewnol a/neu ei ARAC

5.3 Bydd Llywodraeth Cymru:

- yn unol â'r trefniadau goruchwylio y cytunwyd arnynt, yn asesu effeithiolrwydd trefniadau archwiliad mewnol y corff drwy graffu ar eu cynlluniau ar gyfer gweithgaredd yn y dyfodol, adroddiadau ar weithgaredd yn y gorffennol a'i adroddiad sicrwydd blynyddol (fel y'i paratowyd gan

Bennaeth Gwasanaeth Archwiliad Mewnol y corff, gan roi eu barn ar reoli risg, rheolaeth a llywodraethiant);

- bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i gael mynediad at yr holl ddogfennau a baratowyd gan archwilydd mewnol y corff, gan gynnwys pan fydd y gwasanaeth wedi ei gontractio allan.

5.4 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol (ond nid y Cadeirydd) a bydd ganddynt brofiad ariannol diweddar a pherthnasol a chymhwyster proffesiynol gan gorff cyfrifyddu.

5.5 Mae gan Weinidogion Cymru hawl i enwebu cynrychiolydd i fynychu unrhyw gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd y cynrychiolydd hwnnw, o ganlyniad i fynychu'r cyfarfodydd, yn derbyn copïau o'r holl bapurau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg, a bydd yn eu rhannu gyda Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am roi sicrwydd ar sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith cyfrifyddu Gweinidogion Cymru. Bydd cytundeb arsylwr ffurfiol yn manylu ar rôl arsylwr Llywodraeth Cymru yn cael ei greu a'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a'r Cwmni.

**Archwiliad Allanol**

5.6 Bydd y Cwmni yn gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer archwiliad allanol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac unrhyw ofynion y gallai Llywodraeth Cymru eu nodi o bryd i'w gilydd. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) hawliau statudol i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

5.7 Bydd y Cwmni yn darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniadau y maent yn gofyn amdanynt yn rhesymol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Os bydd angen gwneud hynny, bydd y Cwmni'n trefnu i'w archwilydd allanol ddarparu'r rhesymeg dros eu barn archwilio i Lywodraeth Cymru ac i archwilwyr allanol Llywodraeth Cymru.

5.8 Gall ACC gynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r corff wedi defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau a gall wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau cyrff, ac astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan ACC hawl statudol i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth a gedwir gan bersonau perthnasol.

**Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru**

5.9 Rhaid i'r Cwmni, heb dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Llywodraeth Cymru ar unrhyw adeg resymol a chyda rhybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi

rhybudd rhesymol i'r cwmni) yn cael ei roi i'r Cwmni ymweld â'i safle a/neu archwilio unrhyw un o'i weithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'i lyfrau cyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill o'r fath, sut bynnag y cânt eu storio, a allai, ym marn resymol y swyddog hwnnw, fod yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'i ddefnydd o'r cyllid a ddarperir. Mae'r ymrwymiad hwn heb ragfarn ac mae'n ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

6. **Trefniadau Rheoli**

**Cyffredinol**

6.1 Rhaid i'r Cwmni ddilyn yr egwyddorion, rheolau, canllawiau a'r cyngor yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*" a'r Ddogfen Fframwaith hon bob amser. Rhaid i'r Cwmni gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau am eithriadau i ofynion y Ddogfen Fframwaith hon i'r Tîm Partneriaeth yn yr achos cyntaf. Os oes angen gwyro oddi wrth y Ddogfen Fframwaith hon, rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar hyn yn ysgrifenedig. Mae rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i'r Cwmni gydymffurfio â nhw yn **Atodiad E**.

6.2 O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth a data penodol gan y Cwmni. Gall Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a swyddogaethau eraill Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Thrysorlys EM, gyhoeddi cyngor a chanllawiau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried hefyd.

6.3 Rhaid i'r Cwmni sicrhau bod y berthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei chydnabod yn briodol drwy ddefnyddio nod brand Llywodraeth Cymru.

6.4 Wrth gyflawni ei nodau, bydd y Cwmni yn gweithio'n agos â sefydliadau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol, cyrff eraill y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, gan adlewyrchu'r ymrwymiadau yng nghytundebau partneriaeth Gweinidogion Cymru gyda'r sectorau gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol.

**Rheoli Staff**

6.5 Er bod gan y Cwmni y gallu i bennu cyflogau, telerau ac amodau ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt, mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad hefyd iddynt gynnig systemau cyflog teg a blaengar, hyblygrwydd ar ffyrdd o weithio ac ymgynghoriad ystyrlon gyda staff. Fel cwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, disgwylir iddo adlewyrchu'r safonau uchel o wasanaeth cyhoeddus y mae Gweinidogion Cymru yn eu mynnu gan gyrff cyhoeddus Cymru. Dylai hefyd ystyried y cylch cyflog a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru i gyrff hyd braich.

6.6 Bydd y cwmni hefyd yn sicrhau bod:

- polisïau rheoli a datblygu staff ar waith sy’n adlewyrchu’r trefniadau ar gyfer arfarnu a rheoli perfformiad staff gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad i annog staff i ennill sgiliau ac ymddygiad proffesiynol, rheoli ac eraill perthnasol sydd eu hangen i gyflawni eu rolau;
- cod Ymddygiad ar waith ar gyfer ei staff, sy’n gyson â’r Cod Ymddygiad Model a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu priodol ar waith a threfniadau priodol i ymdrin ag unrhyw bryderon staff a allai fod ynghylch amhriodoldeb;
- bydd yn gweithio gyda'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill o'i staff a bydd yn dilyn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru
- cynhelir ymgynghoriad ystyrlon â'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill o'i staff ar faterion sy'n effeithio arnynt.

6.7 Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod yr holl drefniadau cyflog wedi bod yn ddarostyngedig i archwiliad cyflog cyfartal ac, yn ogystal, y bydd angen tystiolaeth o bryd i’w gilydd bod trefniadau sicrwydd ansawdd annibynnol sy’n cyflawni’r gofyniad hwn wedi’u cynnal.

6.8 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a chylch gwaith ar gyflogau a materion cysylltiedig i gyrff cyhoeddus a’r sector cyhoeddus yng Nghymru o bryd i’w gilydd. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y tîm partneriaeth yn ôl yr angen.

6.9 Rhaid i’r holl drefniadau ar gyfer negodi cyflogau a materion cysylltiedig adlewyrchu polisi Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Bydd y corff hefyd yn sicrhau nad yw eu cyflogeion yn derbyn swm llai na’r Cyflog Byw Gwirioneddol[1] fel y mae’n berthnasol i Gymru.

6.10 Bydd angen i’r Cwmni ystyried cyhoeddiad Trysorlys EF, *Adolygiad o Drefniadau Treth Cyflogeion y Sector Cyhoeddus* Mai 2012. Mae’r Canllaw hwn yn cadarnhau’r angen i bob aelod o staff gael eu talu drwy drefniadau’r gyflogres. Nid yw trefniadau eraill lle mae staff (ac yn arbennig uwch aelodau o staff sy’n ennill mwy na £58,200 y flwyddyn) yn cael eu talu drwy gyfryngwyr gan gynnwys asiantaethau, busnesau cyflogaeth a chwmnïau gwasanaeth personol yn dderbyniol. Bydd angen i’r Cwmni wneud ymholiadau digonol i sicrhau ei hun bod secondeion ar gyflogres y sefydliad secondio yn hytrach na defnyddio trefniant cyfryngu.

[1] Mae’r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyfrifo gan y Resolution Foundation a’i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael am safonau byw yn y DU. Mae’r fasged nwyddau yn tynnu ar y Safon Isafswm Incwm er mwyn nodi costau byw bob dydd drwy gonsensws y cyhoedd. https://www.livingwage.org.uk

***Buddion Staff a Gwobrau Heblaw Cyflog***

6.11 Wrth ystyried rhoddion neu wobrau heblaw cyflog i staff neu aelodau'r Bwrdd, rhaid i'r Cwmni lunio barn a yw cam gweithredu o'r fath yn cynrychioli defnydd priodol o arian cyhoeddus. Wrth lunio cynlluniau buddion neu wobrau heblaw cyflog i staff, rhaid i'r Cwmni ystyried *"Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian"* Trysorlys EF a *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* Llywodraeth Cymru.

***Pensiynau a Talu wrth Ennill***

6.12 Bydd staff cymwys sy'n cael eu cyflogi gan y Cwmni yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar eu cynllun pensiwn galwedigaethol cymeradwy yn unol â Diwygiadau Pensiwn y Gweithle yn Neddf Pensiynau 2008 a Chynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) (Diwygio) 2012. Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru dderbyn manylion o bryd i'w gilydd am nifer y staff sy'n eithrio o gynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl cael eu cofrestru'n awtomatig.

6.13 Ers Ebrill 2013, mae gofyniad cyfreithiol i gyflogwyr adrodd manylion Talu wrth Ennill mewn amser real. Rhaid i gyflogwyr a darparwyr pensiynau hysbysu Tollau a Chyllid Ei Fawrhydi (CThEF) ynglŷn â chyfraniadau treth, yswiriant gwladol a didyniadau eraill pan neu cyn y gwneir taliadau, yn hytrach nac aros tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 7. Y Fframwaith Cynllunio

### Llythyrau Cylch Gwaith

7.1 Ar ddechrau tymor Llywodraeth, bydd y Gweinidog yn cyflwyno llythyr cylch gwaith i'r Cwmni sy'n nodi'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cwmni. Bydd y trefniant hwn yn parhau i fod mewn grym ar gyfer oes y weinyddiaeth (tymor Llywodraeth), er y gellir diwygio'r cylch gwaith ar hysbysiad ysgrifenedig, er enghraifft os bydd blaenoriaethau Gweinidogol yn newid. Mae proses cylch gwaith Tymor Llywodraeth wedi'i nodi yn Atodiad B

7.2 Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi llythyr cyllido cyn gynted â phosibl ac fel arfer dim hwyrach nag un mis ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Bydd hyn yn nodi'r holl drefniadau ariannu perthnasol a bydd yn cynnwys y ffigur cymorth grant a bleidleisiwyd a'r gyllideb adnoddau, wedi'i ddadansoddi i gyfansymiau rheoli cyllideb.

### Cynlluniau Busnes

7.3 O fewn tri (3) mis i dderbyn y llythyr cylch gwaith, mae angen i'r Cwmni gyflwyno cynllun busnes i'r Gweinidog yn nodi sut bydd yn cyflawni ei amcanion strategol. Mae angen i'r cynllun terfynol, a gymeradwywyd gan y Gweinidog, adlewyrchu nodau ac amcanion strategol y Cwmni a bydd mewn grym am hyd tymor cyfan y Llywodraeth), oni bai bod y cylch gwaith yn newid, fel y nodwyd ym mharagraff 7.1.

7.4 Ar ddiwedd tymor y Llywodraeth, bydd y cynllun busnes yn symud ymlaen nes y bydd y Llywodraeth newydd wedi gosod ei hagenda strategol.

### Cynlluniau Corfforaethol

7.5 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi agenda strategol, bydd y cwmni yn cynhyrchu cynllun corfforaethol (neu strategaeth gorfforaethol). Rhaid datblygu'r cynllun corfforaethol o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, yng nghyd-destun y nodau Llesiant, a'u bod yn cwmpasu cyfnod yr agenda strategol. Bydd cynlluniau corfforaethol yn cael eu symud ymlaen flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ymgynghoriad â'r tîm partneriaeth wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynlluniau eu hunain.

### Cynlluniau Gweithredol

7.6 Bob blwyddyn ariannol, yng ngoleuni penderfyniadau Gweinidogion Cymru ar ddyrannu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, bydd y Gweinidog yn anfon datganiad ffurfiol o'u darpariaeth gyllidebol at y Cwmni yn unol â pharagraff 7.9 isod.

7.7 Mewn ymateb i hyn, bydd y Cwmni yn paratoi cynllun gweithredol blynyddol sy'n nodi'r lefel o wasanaeth i'w chyflawni mewn meysydd allweddol a rhaid casglu gwybodaeth am berfformiad ac allbwn er mwyn monitro cynnydd. Mae angen i'r cynllun gael ei hysbysu gan lythyr cylch gwaith y Gweinidog, tymor cynllun busnes y

Llywodraeth, cynllun busnes y Llywodraeth, a’r lefel o gyllid a gadarnhawyd sydd ar gael. Y Bwrdd fydd yn penderfynu ar union gynnwys y cynllun hwn. Fodd bynnag, os bydd y Gweinidog neu’r Cwmni yn dymuno, gellir ceisio cymeradwyaeth Weinidogol o’r cynllun gweithredu drwy’r Tîm Partneriaeth.

7.8 Rhaid i’r cynllun gweithredu adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a rhaid i’r Cwmni esbonio sut y bydd yn defnyddio’r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf a sut y bydd yn cyfrannu i gyflawni’r saith nod llesiant, gan gynnwys Carbon Sero Net – mae’r enghraifft (isod) yn esboniad da o’r mewnbynnau a’r canlyniadau gofynnol.

**Sero Net – Argyfwng Hinsawdd**

Mae’n hollbwysig bod pob corff cyhoeddus yn chwarae eu rhan yn llawn yn ein hymdrech tuag at Gymru carbon sero net. Fel y mae ein Cynllun diweddar, *Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 (2021 i 2025)* (<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf>) ac asesiad risg y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (https://www.ukclimaterisk.org/wp-content/uploads/2021/06/CCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.ukclimaterisk.org%2Fwp-content%2Fuploads%2F2021%2F06%2FCCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf&data=04%7C01%7CLorraine.Kelly%40gov.wales%7C9c6c5a5c8e6d4384335e08d9aaaf1c4a%7Ca2cc36c592804ae78887d06dab89216b%7C0%7C0%7C637728491327939241%7CUnknown%7CTWFpbGZsb3d8eyJWIjoiMC4wLjAwMDAiLCJQIjoiV2luMzIiLCJBTiI6Ik1haWwiLCJXVCI6Mn0%3D%7C3000&sdata=dXT5bJRi88YCZjzbj9YisCUtEmwrU1YSgdeYSjn6PXc%3D&reserved=0>) yn datgan yn glir, mae’r Argyfwng Hinsawdd (<https://www.llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd>?) a’r risgiau sy’n deillio ohono yn real ac yn enbyd iawn. Mae angen gweithredu yn awr i gael gwared ar garbon o’n systemau ac ymateb i’r her o addasu i newid yn yr hinsawdd wrth i ni weld canlyniadau anochel newid i dymereddau byd-eang.

Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd y Senedd llwybr Sero Net 2050 (https://www.llyw.cymru/targedau-newid-hinsawdd-chyllidebau-carbon) i ddeddfwriaeth ac mae *Sero Net Cymru* wedi ail-gadarnhau’r uchelgais i gyflawni sector cyhoeddus sero net carbon cyfunol erbyn 2030. Mewn ymateb, disgwylir i’r corff wneud cyfraniad llawn drwy fynnu newidiadau i’w hymddygiad a’u harferion busnes er mwyn creu gostyngiad cyfiawn a chynaliadwy yn ei ddefnydd o garbon gan arwain at sefyllfa sero net. Wrth wneud hynny, disgwylir i'r corff:

- Rhoi newid hinsawdd wrth wraidd pob penderfyniad, mawr a bach, er mwyn sicrhau ein bod yn gwasgu allyriadau carbon o bob polisi, gweithrediad a

maes dylanwad, ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried, ac yn addasu i'r hinsawdd sy'n newid a welwn heddiw ac a welwn yn y dyfodol.

Defnyddio'r *Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru* (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/trywydd-ar-gyfer-datgarboneiddio-ar-draws-sector-cyhoeddus-cymru.pdf) i ddatblygu cynllun ac adrodd ar eich camau gweithredu i leihau allyriadau a symud at weithrediadau carbon niwtral erbyn 2030. Gall hyn fod ar ffurf adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu cyhoeddedig neu ddogfen ar wahân.

- Dilyn y *Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero net* (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-05/canllaw-sector-cyhoeddus-cymru-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net.pdf) er mwyn adrodd ar amcangyfrifon o allyriadau sylfaenol (yn flynyddol i Lywodraeth Cymru), nodi ffynonellau blaenoriaeth a monitro cynnydd tuag at gyrraedd yr uchelgais ar y cyd o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.
- Arddangos y camau rydych yn eu cymryd i gynllunio ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Dylid ymgorffori ystyriaethau risg i'r hinsawdd mewn trefniadau llywodraethu, polisïau a phenderfyniadau, gan ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael ar y risg i'r hinsawdd a chynllunio gwydnwch.
- Mabwysiadu arferion ac ymddygiad a fydd yn gosod y safon, yn gweithredu fel esiampl ac yn galluogi newid yn gadarnhaol i gyflawni cymdeithas carbon sero net yng Nghymru. Mae hyn yn cydnabod sefyllfa unigryw'r sector cyhoeddus i ddylanwadu ar allyriadau llawer ehangach na'i allyriadau uniongyrchol ei hun, cymharol fach ond pwysig, mewn meysydd fel gwasanaethau, trafnidiaeth, ynni a defnydd tir.

**Cyhoeddi Cynlluniau**

7.9 Mae angen i'r Cwmni sicrhau bod y cynlluniau busnes a gweithredol ar gael i'r cyhoedd.

**Cynllunio'r Gyllideb**

7.10 Mae trefniadau cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael eu llywodraethu gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd.

7.11 Rhaid i'r Cwmni gydweithredu â'r Tîm Partneriaeth drwy ddarparu'r holl gymorth a gwybodaeth angenrheidiol er mwyn i Lywodraeth Cymru allu bwrw ymlaen â'u penderfyniadau ar gynllunio'r gyllideb.

7.12 Bydd y Gweinidog yn cadarnhau'r cyllidebau refeniw net ac adnoddau cyfalaf a swm y cyllid cymorth grant (arian parod) i'w darparu i'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o'r dyraniad cyllideb adnoddau net, bydd y Gweinidog hefyd yn cadarnhau'r lefel o incwm y gall y Cwmni ei chadw i ariannu gweithgaredd yn y

flwyddyn ariannol. Fel arfer ni fydd hyn yn hwyrach nac un mis ar ôl i’r Senedd gymeradwyo’r gyllideb derfynol. Rhaid i unrhyw gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael ei awdurdodi gan y Senedd yn ei Chynnig y Gyllideb Flynyddol.

7.13 Lle bo modd, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd dilynol i lywio gwaith cynllunio cyllideb. Fodd bynnag, gall lefelau cyllidebau dangosol leihau neu gynyddu yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios Gweinidogol, amrywiadau cyllidebol a/neu bryderon ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd y Cwmni, a allai fod yn ofynnol i fodelu gwahanol opsiynau ar gyfer gweithgaredd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

7.14 Wrth bennu cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf, a gofynion cymorth grant, rhoddir ystyriaeth i’r lefelau o gronfeydd wrth gefn (os o gwbl) a ddelir gan y Cwmni a’r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill.

## 8. Rheoli Perfformiad

### Gofynion Adrodd

8.1 Rhaid i’r Cwmni weithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy’n eu galluogi i adolygu eu gwybodaeth ariannol mewn ffordd amserol ac effeithiol a hysbysu Llywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw newidiadau sy’n ei gwneud yn fwy neu’n llai anodd i gyflawni amcanion.

8.2 Yn unol â’r gofynion adrodd yn y trefniadau goruchwylio i’w cytuno rhwng y Cwmni a’r Tîm Partneriaeth, dogfennau sicrwydd allweddol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol, rhaid rhannu manylion y gwariant gwirioneddol a rhagweledig a gwybodaeth fonitro arall gyda’r Tîm Partneriaeth ar gyfnodau y cytunwyd arnynt er mwyn dangos bod cerrig milltir a thargedau yn cael eu cyflawni, a bod y Dangosyddion Partneriaeth Allweddol o fewn lefelau derbyniol.

8.3 Bydd y Cadeirydd a’r Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn cwrdd â’r Gweinidog o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd.

8.4 Dyletswydd y Tîm Partneriaeth yw cynnal asesiadau cyfnodol o'r sicrwydd risg sydd ar gael iddynt a gallant ddiwygio lefel yr oruchwyliaeth yn unol â hynny.

### Adrodd Eithriadau

8.5 Rhaid i’r Cwmni hysbysu Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y bydd yn dod yn amlwg:

- bod y gwariant adnoddau am y flwyddyn gyfan yn debygol o fod yn uwch na’i gyllideb gymeradwy mewn unrhyw gyfansymiau rheoli’r gyllideb;
- eu bod yn debygol o danwario o fwy na’r hyn sy’n gyfwerth â 3 y cant o gyfanswm eu dyfarniad cymorth grant arian parod.

8.6 Bydd hefyd yn darparu:

- adroddiad blynyddol o golledion a ddilëwyd a thaliadau arbennig a wnaed neu a gymeradwywyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol;
- adroddiad blynyddol yn amlinellu’r holl achosion o dwyll a dwyn y cawsant eu hamlygu iddynt.

### Is-gwmnïau a Chyd-fentrau

8.7 Ni fydd y Cwmni yn sefydlu is-gwmnïau neu gyd-fentrau sy’n cynnwys sefydlu cyfryngau diben arbennig – er enghraifft cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythurau eraill â hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol – heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Partneriaeth.

8.8 Bydd unrhyw is-gwmni neu gyd-fenter sy’n cael ei rheoli neu sydd ym mherchnogaeth y Cwmni yn cael ei chydgrynhoi ynddo fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu ac, oni bai bod y Tîm Partneriaeth wedi cytuno fel arall, bydd yn

ddarostyngedig i'r rheolaethau a'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac i unrhyw ddarpariaethau pellach eraill a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

## 9. Cyllidebau Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf

### Gwariant

9.1 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a gyflwynir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a Deddf Cwmnïau 2006 neu ddeddfwriaeth berthnasol arall, cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, neu'r ddogfen hon, gall y Cwmni, cyn gynted ag y bydd ei gyllideb wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog, ysgwyddo gwariant ar y rhaglen a gymeradwywyd yn ei chyllideb flynyddol heb gyfeirio ymhellach at y Tîm Partneriaeth, yn amodol ar yr amodau canlynol:

- bydd y Cwmni yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad B. Ni ddylid addasu na mynd yn groes i'r dirprwyaethau hyn heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Partneriaeth;
  - rhaid i'r Cwmni sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen â:
  - unrhyw gynnig y gellid ystyried ei fod yn newydd, dadleuol neu ôl-effeithiol;
  - unrhyw newid polisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol ehangach;
  - unrhyw beth a allai effeithio ar y lefelau gofynnol o adnoddau yn y dyfodol; neu
  - unrhyw newid arwyddocaol i weithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan y tîm partneriaeth;
- bydd y Cwmni yn dilyn y fframwaith polisi yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* mewn cysylltiad â chaffael nwyddau a gwasanaethau;
- bydd y Cwmni'n gwrthod ceisiadau am daliadau ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion eithriadol lle ystyrir y gallai rhywfaint o daliad fod yn angenrheidiol. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn yr egwyddorion a nodir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*";
- bydd y Cwmni yn ymgynghori â'r Tîm Partneriaeth cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb prydlesu eiddo. Rhaid i'r Tîm Partneriaeth hefyd gymeradwyo unrhyw gynigion i adleoli neu symud i adeilad newydd ymlaen llaw;
- rhaid i'r Cwmni fod yn agored a thryloyw yn eu hagwedd at roddion a bod ganddynt bolisïau clir ar ddatgelu gwybodaeth am, a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer, rhoi unrhyw roddion.

9.2 Rhaid i'r Cwmni gofnodi a monitro gwariant yn erbyn y cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf yn unol â Canllawiau Cyllidebu Cyfunol y Trysorlys (neu ei olynydd). Y rhain yw'r cyfyngiadau gwariant net ar gyfer y Cwmni ym mhob blwyddyn – gan gynnwys unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn y rhoddwyd sicrwydd cyllidebol ar ei gyfer – a rhaid glynu wrthynt. Ni ellir ymrwymo i wariant net uwchlaw'r

terfynau hyn nes neu oni bai y bydd y Tîm Partneriaeth wedi cytuno'n ysgrifenedig ar gyllideb ddiwygiedig.

9.3 Ni chaiff y Cwmni dorri rhannau cydrannol y cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf. Rhaid ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig os yw'r Cwmni'n dymuno gwario mwy mewn un categori a llai mewn un arall.

9.4 Mae cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf yn cwmpasu holl incwm a gwariant y Cwmni, gan gynnwys grantiau sydd wedi'u clustnodi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac incwm a dderbynnir o ffynonellau eraill.

9.5 Mae'r Cwmni wedi'i ddynodi mewn Gorchymyn o dan adran 126A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd y cyllidebau adnoddau net, terfyn incwm cadwedig a chymorth grant (arian parod) a bennwyd ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn destun pleidlais yng Nghynnig y Gyllideb y Senedd.

**Cyllidebau Incwm ac Adnoddau**

9.6 Mae pob ffrwd incwm a dderbynnir gan y Cwmni yn cael eu trin fel arian cyhoeddus ac mae gofynion y ddogfen hon yr un mor berthnasol iddynt.

9.7 Rhaid i'r Cwmni geisio cynyddu ei incwm o ffynonellau eraill i'r eithaf o ffynonellau heblaw'r sector cyhoeddus pan fydd hyn yn gyson â'i swyddogaethau (ac yn cyd-fynd â'r cynlluniau busnes a gweithredol). Gall gadw incwm i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn hyd at y lefel a nodir yn y llythyr cyllido, sy'n deillio o, er enghraifft, elw o werthu tir ac adeiladau ac asedau eraill, grantiau a roddir gan yr Undeb Ewropeaidd, grantiau a roddir drwy gronfeydd loteri, unrhyw elw o weithgareddau masnachol y Cwmni a'r rhai sy'n deillio o werthu gwasanaethau i farchnadoedd ehangach. Rhaid ymgymryd â gweithgaredd o'r fath yn unol â thelerau "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*" a'r Ddogfen Fframwaith hon.

9.8 Mae'r uchafswm incwm y gall y Cwmni ei gadw i ariannu gweithgaredd yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'i nodi yn y llythyr cyllido. Os disgwylir i'r cyfanswm incwm fod yn uwch na'r uchafswm hwnnw, dylai'r Cwmni drafod hyn gyda'r Tîm Partneriaeth a cheisio cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

9.9 Gellir cyfyngu ar y defnydd o fathau penodol o incwm, er enghraifft rhoddion, grantiau o waith ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn rhai cyhoeddus, neu gymynroddion. Dylid rheoli arian o'r fath yn unol â thelerau'r rhodd/grant neu gymynrodd. Mae'n rhaid eu cynnwys yn yr incwm a adroddir gan y Cwmni a ffurfio rhan o'r uchafswm cadw incwm. Pan fyddant yn cael eu defnyddio, bydd angen sicrwydd y gyllideb adnoddau ar unrhyw daliadau dros ben.

***Benthyca, Gwarantau a Buddsoddiadau***

9.10 Ni fydd y Cwmni, heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfleusterau benthyca dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft a drefnwyd ymlaen llaw i bontio unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthyca hirdymor); rhoi

benthyciadau; arwystlo unrhyw ased neu warant; rhoi unrhyw warant neu indemniadau; llythyrau cysur; neu ysgwyddo unrhyw rwymedigaeth amodol arall yn fwriadol (fel y disgrifir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*") boed ar ffurf gyfreithiol rwymol ai peidio. Rhaid i bob gwarant ac indemniad ariannol a roddir gan y Cwmni gael eu cwmpasu'n ddigonol yn erbyn Adnoddau Gwariant Cyhoeddus y Senedd heb eu tynnu.

9.11 Ac ni fydd y Cwmni yn gwneud unrhyw fuddsoddiadau heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Partneriaeth, ac eithrio mewn cysylltiad ag adneuon tymor byr o wargedion arian parod.

**Grantiau, Benthyciadau a Chontractau sy'n cael eu dyfarnu gan y Cwmni i Endidau eraill**

9.12 Rhaid i bob grant gydymffurfio â thelerau "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* a bod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau priodol, sy'n darparu diogelwch digonol i bwrs y wlad.

9.13 Rhaid i delerau ac amodau, er enghraifft, ganiatáu ar gyfer taliadau graddol, atgyfnerthu hawliau mynediad i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sicrhau bod buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru yn cael eu gwarchod yn ddigonol, a chaniatáu adfachiad mewn amgylchiadau penodol, e.e. os defnyddir arian grant at ddibenion heblaw'r rhai cymeradwy.

9.14 Rhaid i'r Cwmni gymryd camau i werthuso sefyllfa ariannol unrhyw endid sy'n derbyn, er enghraifft drwy adolygu datganiadau ariannol a chydymffurfiaeth â chyrff adrodd statudol, a chynnal gwiriadau gydag asiantaethau cyfeirio credyd.

9.15 Rhaid hysbysu'r Tîm Partneriaeth ynghylch unrhyw gynllun benthyca y mae'r Cwmni yn dymuno ymrwymo iddo. Pan roddir cymeradwyaeth, rhaid rholi'r trefniant benthyca o dan drefniadau tebyg i'r rhai ar gyfer grantiau.

**Rheoli Cymorthdaliadau'r DU**

9.16 Os yw'r gweithgaredd sy'n cael ei gefnogi o natur fasnachol neu economaidd, bydd angen i unrhyw gymorth a ddarperir gydymffurfio â threfn rheoli cymorthdaliadau'r DU, yn ogystal â'r holl rwymedigaethau cytuniadau rhyngwladol perthnasol. Rhaid i'r Cwmni ddefnyddio'r prawf pedwar-cymal cyn dyfarniad, sicrhau bod y cymorth yn glynu wrth y saith egwyddor ar gyfer cymhorthdal cydnaws ac yn sicrhau ymhellach fod cymorthdaliadau'n cael eu rheoli'n briodol, gan gofio bod cymhorthdal yn fantais ar unrhyw ffurf beth bynnag, a roddir ar sail ddetholus i fenter sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd, gan roi mantais iddynt na fyddent wedi'i chael fel arall. Mae'r Cwmni'n gyfrifol am sicrhau lefelau priodol o dryloywder wrth adrodd ar y mathau o gymorth sydd wedi'u darparu. Cyfeiriwch at ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddyfarnu cymorthdaliadau am ragor o wybodaeth:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-subsidy-control-statutory-guidance

9.17 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu system rhaghysbysu ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cwmni a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae manylion y penderfyniadau hyn i'w gweld yn **Atodiad B.**

## 10. Cymorth Grant a Rheoli Arian Parod

### Cymorth Grant

10.1 Cymorth Grant yw'r swm o arian parod sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i'r Cwmni bob blwyddyn i ariannu eu gweithrediadau ac sy'n annibynnol oddi wrth y ffigurau cyllideb, er eu bod yn deillio ohonynt. Nid yw'n cynnwys dibrisiant, unrhyw addasiadau cyfrifyddu neu unrhyw sicrwydd cyllidebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnydd y Cwmni o'i gronfeydd wrth gefn ei hun.

10.2 Telir y cymorth grant mewn taliadau chwarterol fel arfer ar sail ceisiadau ysgrifenedig sy'n dangos tystiolaeth o'r angen am arian parod a gan unigolyn a awdurdodwyd i wneud hynny. Bydd y Cwmni yn cydymffurfio â'r egwyddor gyffredinol na wneir unrhyw daliad ymlaen llaw. Bydd balansau arian parod a gronnwyd yn ystod y flwyddyn o gymorth grant neu gronfeydd eraill yn cael eu cadw ar y lefel isaf sy'n gyson â gweithrediad effeithlon y Cwmni. Gall lefelau uchel o arian parod a gedwir gael effaith ar y gyllideb adnoddau pan fydd y gwariant cysylltiedig a ysgwyddir, ac, os nad yw'n cael ei gadw gyda gwasanaeth bancio y llywodraeth, gall effeithio hefyd ar gostau benthyca'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, nid oes angen i gyrff cyhoeddus gadw cronfeydd mawr o arian cyhoeddus oherwydd ystyrir bod hyn yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau cyhoeddus ac mae'n agor Llywodraeth Cymru a'r corff i feirniadaeth gyhoeddus a beirniadaeth archwilio.

10.3 Bydd cymorth grant nad yw'n cael ei dynnu i lawr erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dod i ben. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd o ddarpariaeth bresennol Cynnig y Gyllideb, pan fydd cymorth grant yn cael ei oedi er mwyn osgoi balansau arian parod gormodol ar ddiwedd y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw gymorth grant o'r fath ar gael yn y flwyddyn ariannol ganlynol, sy'n ofynnol i fodloni unrhyw rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn, fel credydwyr.

10.4 Fel gofyniad sylfaenol, bydd y Cwmni yn parhau i ddarparu gwybodaeth reolaidd i Lywodraeth Cymru, yn chwarterol o leiaf neu'n amlach os bydd y Tîm Partneriaeth yn gofyn am hynny, drwy'r hawliadau cymorth grant a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'n foddhaol:

- proses rheoli arian parod y Cwmni;
- cymorth grant sy'n cael ei dynnu i lawr;
- allbwn adnoddau rhagolygol yn ôl penawdau adnoddau;
- data arall gofynnol ar gyfer systemau adrodd Trysorlys EF.

### Balansau Arian Parod

#### *Yn ystod y Flwyddyn*

10.5 Rhaid cadw balansau arian parod a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ar y lefel isaf sy'n gyson â gweithrediad effeithlon y Cwmni.

10.6 Rhaid i’r Cwmni osgoi cynnal balans gweithredol sy’n fwy na’r hyn sy’n gyfwerth â 4 y cant o’i ddyfarniad cymorth grant blynyddol pan fydd yn derbyn pob rhandaliad o gymorth grant. Bydd angen i unrhyw arian sy’n uwch na’r swm a ddelir gan y Cwmni fel balans gweithredol ar ddiwedd pob cyfnod cyllido gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy’r Tîm Partneriaeth, a bydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar y swm o arian parod i’w dalu yn y cyfnod canlynol.

***Diwedd y Flwyddyn***

10.7 Caniateir i’r Cwmni gario unrhyw falensau arian parod sydd wedi’u tynnu i lawr ond nad ydynt wedi’u tynnu i lawr o un flwyddyn ariannol i’r nesaf, o hyd at 2 y cant o’u dyfarniad cymorth grant blynyddol. Rhaid cytuno ar unrhyw gynnig i gario symiau drosodd sy'n fwy na'r swm hwn yn ysgrifenedig ymlaen llaw gyda Chyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r Tîm Partneriaeth, fesul achos unigol. Dylid ystyried unrhyw swm a gariwyd drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yng nghymorth grant y flwyddyn ganlynol.

***Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc***

10.8 Rhaid datgan yr holl log, ar ôl tynnu unrhyw ffioedd banc, a enillir gan y Cwmni ar ei arian parod a'i falansau banc ym mhob cyfnod hawlio ar ffurflen gais tynnu arian y Cwmni a'i ildio i Drysorlys EM drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 11. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

### Sylfaen Tystiolaeth

11.1 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid bod gan y Cwmni systemau priodol ar waith, a'r capasiti i sicrhau bod eu polisïau a'u rhaglenni yn seiliedig ar dystiolaeth mewn cysylltiad â'u datblygiad, eu gweithrediad a'u gwerthusiad.

11.2 Bydd y Cwmni yn adolygu eu gwasanaethau a'u gweithgareddau yn rheolaidd.

11.3 Rhaid i'r Cwmni sicrhau hefyd y bydd ei ddull o gynnal arfarniadau a gwerthusiadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir mewn canllawiau.

### Adolygiadau wedi'u Teilwra

11.4 Bydd y tîm partneriaeth a'r corff yn ystyried yn rheolaidd yr angen am Adolygiadau ffurfiol neu anffurfiol o'r corff, a fydd yn seiliedig ar Model Hunanasesu Cymru (SAMW). Dylid cynnal adolygiad eang o'r corff o leiaf unwaith ym mhob tymor Llywodraeth, gyda'r nod o roi sicrwydd i'r Gweinidog bod y corff yn parhau i fod yn addas at y diben. Dylai adolygiadau ystyried cryfderau a gwendidau'r corff, a'i allu i gyflawni'n fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys nodi'r potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, a lle bo'n briodol ei allu i gyfrannu at dwf economaidd. Dylai hefyd ystyried y trefniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith i sicrhau bod y corff a Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion cydnabyddedig llywodraethu da.

Cymeradwywyd telerau'r Ddogfen Fframwaith hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.



Llofnodwyd

Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Dyddiedig: 13 Chwefror 2026



Llofnodwyd

Y Prif Weithredwr neu swyddog enwebedig arall ar ran Adnodd Cyfyngedig

Dyddiedig: 19 Chwefror 2026

## Atodiad A

### Y Swyddogaeth Bartneriaeth a nodir yn y Ddogfen Fframwaith Model

- cyflwyno cyngor i Weinidogion perthnasol Cymru a darparu gwybodaeth i bwyllgorau perthnasol y Senedd ar faterion sy'n ymwneud â'r corff;
- derbyn a gweithredu ar wybodaeth a ddarparwyd gan y corff o dan y ddogfen fframwaith;
- gwirio hawliadau ar gyfer, ac os ydynt wedi'u bodloni, awdurdodau taliadau cymorth grant (GIA);
- cyfathrebu polisi Llywodraeth Cymru i'r corff a chynghori ar y dehongliad o'r polisi;
- cynghori Gweinidogion ar dargedau a dangosyddion perfformiad sy'n glir, perthnasol a heriol;
- monitro ac adolygu perfformiad corff yn erbyn targedau, gan adrodd i Weinidogion a Phwyllgorau'r Senedd fel y bo'n briodol;
- cynghori Gweinidogion ar flaenoriaethau gwariant a lefelau priodol o gymorth grant;
- monitro sefyllfa a pherfformiad ariannol cyrff yn erbyn cynlluniau drwy gyfarfodydd rheolaidd a ffurflenni gan gyrff; ac adrodd i Weinidogion a Phwyllgorau priodol y Senedd;
- cyhoeddi canllawiau i gyrff.

### Hanfodion Partneriaeth Effeithiol

Mae'r egwyddorion sy'n diffinio'r berthynas waith rhwng tîm partneriaeth a'i gorff hyd braich wedi'u nodi yn y cyflwyniad i'r Ddogfen Fframwaith hon.

Nodau'r bartneriaeth yw:

- Meithrin perthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff hyd braich sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr a chyfathrebu agored a gonest.
- Sicrhau bod nodau ac amcanion strategol corff hyd braich yn adlewyrchu ac yn hybu amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru a'r nodau a'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023].
- Darparu'r cymorth a'r arweiniad sydd ei angen ar y corff hyd braich neu y gallai ofyn amdano er mwyn cyflawni eu hamcanion.
- Annog a hybu safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol yn y sefydliad er mwyn sicrhau ei weithrediad effeithlon ac effeithiol.

Mae swyddogaethau partneriaeth sy'n sail i'r prif nodau hyn wedi'u nodi yn y Ddogfen Fframwaith hon, sy'n diffinio'r berthynas rhwng y tîm partneriaeth a'r corff y mae'n gyfrifol amdano. Rhestrir y swyddogaethau yn Atodiad A.

Mae angen i dimau partneriaeth daro cydbwysedd rhwng rheolaeth, a chaniatáu i gyrff weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd, fel oedd y bwriad wrth sefydlu'r corff fel sefydliad hyd braich. Mae angen iddynt sicrhau bod y berthynas yn un effeithiol, gyda phob partner yn galluogi ac yn cefnogi'r llall i gyflawni amcanion Gweinidogol. Mae angen i dimau a chyrff partneriaeth sicrhau hefyd eu bod yn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau mewn ffordd berthnasol ac amserol, a cheisio cyfleoedd i gydweithio'n fwy effeithiol.

Mae'r paragraffau canlynol yn ceisio crynhoi'r rhinweddau mwyaf pwysig sy'n helpu i sicrhau y gellir cyflawni rôl y bartneriaeth mor effeithiol â phosibl.

**Dealltwriaeth Glir -**

- **o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol y mae cyrff yn gweithredu ynddo:** gwybodaeth dda am sut mae'r broses cynllunio busnes a phennu cylch gwaith blynyddol yn gweithio ac yn cysylltu â nodau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru (sydd wedi'u hadlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu); a gwaith cynllunio grŵp/isadrannol a changen. Sicrhau bod y corff yn deall y broses fonitro a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

- **o'r fframwaith atebolrwydd ariannol y mae Llywodraeth Cymru a'r corff yn gweithredu ynddo:** gwybodaeth glir am y rolau a'r rhwymedigaethau priodol **a nodir yn y Ddogfen Fframwaith;** perthnasedd a phwysigrwydd y broses archwilio, gan gynnwys llythyrau rheoli ac adroddiadau sicrwydd ychwanegol; sensitifrwydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'u gweithrediad;

- **o rôl a strwythur gweithredol y corff:** yn ogystal â gwerthfawrogiad o'r problemau maent yn eu hwynebu neu y maent yn credu maent yn eu hwynebu a rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir rhwng y tîm partneriaeth a'r corff.

**Asesiad o Risg -**

- **Asesiad clir a pharhaus o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherthynas y bartneriaeth a strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â hwy:** er enghraifft, risgiau penodol neu gyffredinol sy'n deillio o natur rôl y corff (er enghraifft *risgiau gwahanol sy'n gysylltiedig â gwahanol gyrff*). Hefyd, risgiau penodol sy'n gysylltiedig â rheolaeth ariannol a nodwyd mewn llythyrau rheoli; patrwm o fethiant i gyflawni targedau strategol; neu 'fannau dall' a nodwyd yn nhermau cyfathrebu, y gallai fod angen i'r tîm partneriaeth fabwysiadu rôl fwy 'ymarferol' wrth oruchwylio'r corff.

**Cyfathrebu Effeithiol -**

- **strwythur clir ar gyfer cyfathrebu'n ffurfiol:** mewn cysylltiad â data sydd o fudd i'r ddwy ochr a gwaith cynllunio gweithredol a busnes rheolaidd a'r trefniadau adrodd a monitro ffurfiol y tu hwnt i'r rhain. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm partneriaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y bo'n briodol, i adolygu perfformiad a thrafod materion croestoriadol neu faterion sy'n codi.

- **diwylliant o gyfathrebu anffurfiol rheolaidd ond heb fod yn ymwthiol:** mae hyn yn bwysig wrth helpu i ddatblygu hyder ac ymddiriedaeth a all, yn eu tro, feithrin diwylliant agored a pharodrwydd i rannu a datrys problemau yn gynnar. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm partneriaeth neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ogystal â deialog rhwng swyddogion. Dylid ystyried digwyddiadau rhannu gwybodaeth/rhwydweithio blynyddol, gan roi cyfleoedd i gydweithwyr polisi a chyflawni, cyfarfod, rhannu arfer gorau a datblygu perthnasoedd gwaith.

- **mae cyfranogiad da ar lefel uwch:** i sicrhau cyfeiriad strategol da, ac i adlewyrchu ymrwymiad i'r berthynas.

- **cyfathrebu mewnol effeithiol:** gwybod gyda phwy i gysylltu yn Llywodraeth Cymru am gyngor ar faterion fel cyllidebu; priodoldeb, caffael a materion personél; a pharodrwydd i wneud hynny.

- **datblygu polisïau cynhwysol:** dylid sicrhau lefel briodol o gyfranogiad mewn unrhyw broses datblygu polisïau ar gyfer y corff, gyda dialog a chyfathrebu yn parhau drwy’r broses gyfan.

**Sefydlu Presenoldeb Awdurdodol**

Dylai'r tîm partneriaeth weithredu fel y prif bwynt mynediad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y corff a gweithredu fel ffynhonnell cyngor awdurdodol (hyd yn oed os ceir y cyngor hwnnw o rywle arall), gan gydnabod rôl meysydd eraill o Lywodraeth Cymru wrth sicrhau bod cyrff yn cael eu trin yn gyfartal ar draws Llywodraeth Cymru a'u cyfrifoldebau penodol dros faterion cyflog, pensiynau, penodiadau a chydnabyddiaeth. Mae parodrwydd i gymryd perchnogaeth o gyngor o'r fath wrth gyfathrebu â'r corff yn hanfodol. Deall y cyfathrebiadau rydych chi'n eu trosglwyddo a bod yn barod i roi cyngor.

- **herio a chraffu:** esbonio’n glir bod proses strwythuredig a chadarn o gwestiynu'r corff yn rhan hanfodol o’r rôl, er mwyn cefnogi atebolrwydd cyhoeddus, ond dylai hyn fod ar lefel strategol yn hytrach na gweithredol, er mwyn osgoi micro-reolaeth. Dadansoddi cynigion a gwneud argymhellion gwybodus i drydydd partïon (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Swyddogion Cyfrifyddu a Gweinidogion).

- **cyswllt gyda Gweinidogion:** sefydlu cytundeb gyda Gweinidog ynglŷn â’r hyn y mae’r corff i’w gyflawni yna eirioli ei safbwynt yn gadarn ac yn onest.

**Sgiliau -**

- **hyfforddiant effeithiol:** Hyfforddiant sefydlu cydfuddiannol effeithiol a hyfforddiant partneriaeth effeithiol penodol (ar y cyd â phersonél y corff lle bo modd). Ystyried priodoldeb: hyfforddiant desg; cyfnewid swyddi tymor byr; secondiadau neu gysgodi gwaith; i gynorthwyo dealltwriaeth o rolau a heriau.

**Atodiad B – Dirprwyaethau**

**Trefniadau Galw i Mewn Cyrff Cyhoeddus –**
**Trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu**

1. Mae'r trefniadau ***Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu*** canlynol wedi'u sefydlu er eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau penodol. Mae'r rhain wedi disodli'r trefniadau 'galw i mewn' a oedd yn berthnasol i benderfyniadau allweddol. Nid parhad proses o sicrhau cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yw nod y trefniadau hyn, ond sicrhau bod cyrff yn gallu gwneud penderfyniadau allweddol ar eu pen eu hunain gan sicrhau bod Gweinidogion a swyddogion yn ymwybodol o'r penderfyniadau hynny
2. Rhaid i bob cais am gymeradwyaeth, neu gyhoeddi rhag-hysbysiadau neu hysbysiadau, gael eu cyfeirio at y tîm partneriaeth yn yr achos cyntaf.
3. Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn cwmnïau yn atebol am y penderfyniadau y mae angen hysbysu amdanynt. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae angen hysbysu ymlaen llaw amdanynt, fel y'u nodir yn Nhabl B, ond yn y pen draw, y Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniad. Os bydd y Cwmni'n penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y Tîm Partneriaeth yn argymell i'r Gweinidog y cynhelir trafodaeth gyda'r Cadeirydd, gyda'r Gweinidog yn cadw'r hawl i wrthod penderfyniad lle mae pŵer o'r fath yn bodoli, lle mae'r Cwmni wedi dewis anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru heb reswm cyfiawn.
4. Yr eithriadau fydd y penderfyniadau yn Nhabl A lle bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y penderfyniad.

***Tabl A*** ***Cymeradwyaethau***

| Penderfyniad | Cymeradwyaeth |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Gweinidog (penodiad cyntaf)<br><br>Y Bwrdd (penodiadau dilynol) |
| Dynodi Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y corff | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (Cyfarwyddwr Cyffredinol), Llywodraeth Cymru |
| Cynllun Busnes Tymor y Llywodraeth | Gweinidog |
| I gwmnïau gael eu dosbarthu fel sefydliadau'r Llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu:<br>a) Arian parod a gariwyd drosodd yn ystod y flwyddyn sy'n fwy na 4% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod<br>b) Arian parod a gariwyd drosodd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod<br>c) Sefydlu is-gwmnïau/cyd-fentrau newydd<br>ch) Unrhyw fenthyca, rhoi benthyciadau, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus<br>d) Derbyn incwm i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y llythyr ariannu. | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru |
| Mae unrhyw benderfyniad a nodir mewn deddfwriaeth fel un sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru e.e. Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun corfforaethol blynyddol gael ei gymeradwyo gan Weinidogion. | Gweinidog |
| Trefniadau dileu swyddi yn seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (cyrff â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil) | Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd, drwy'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor y Gweinidog os bydd angen |
| Cynigion newydd, dadleuol neu ôl-effeithiol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynigion sy'n: | Cyfarwyddwr Cyffredinol |

| | |
|---|---|
| • Arferion ansafonol<br>• Sensitif yn wleidyddol a/neu sy’n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau<br>• A allai greu canlyniadau negyddol i’r sefydliad a/neu i’r sector cyhoeddus yn ehangach | |
| Unrhyw gamau gweithredu y mae’r Bwrdd o’r farn y byddent yn groes i egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb, gweinyddiaeth ddoeth a darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn | Cyfarwyddwr Cyffredinol |
| Cynllun Corfforaethol a Gweithredol | Gweinidog |
| Is-gwmnïau a chyd-fentrau | Cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dilyn cymeradwyaeth y tîm partneriaeth ac ystyriaeth gyda chyllid grŵp |

***Tabl B Trefniadau Rhaghysbysu***

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu Tîm Partneriaeth am unrhyw benderfyniadau arfaethedig o dan y categorïau canlynol pryd bynnag y byddant yn codi, i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddarparu cyngor priodol. Bydd y Tîm Partneriaeth yn ceisio ymateb o fewn pythefnos, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl. Os bydd y corff yn penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, gall y Tîm Partneriaeth uwchgyfeirio'r mater i'r Gweinidog, sy'n cadw'r hawl i wrthod y penderfyniad a wneir gan Gorff Cyhoeddus na ellir, yn dilyn trafodaeth, ei gyfiawnhau.

Dylai'r penderfyniadau hyn fod yn rhan o drafodaeth 'cymryd stoc' hefyd mewn cyfarfodydd monitro chwarterol:

| Penderfyniad | Cam Gweithredu Rhaghysbysu | Cyngor Pellach |
|---|---|---|
| Newid polisi neu arfer a fydd yn creu goblygiadau ariannol eang | Y Tîm Partneriaeth i baratoi cyngor i'r Pennaeth Rheoli Cyllidebau | Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Tâl a thelerau ac amodau staff | Y Tîm Partneriaeth i gyflwyno cynigion i'r Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd, yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar:<br>• newidiadau y tu hwnt i egwyddorion cyflogau sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru;<br>• newidiadau dyluniad sefydliadol sy'n debygol o arwain at ddiswyddiadau | Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw beth a allai effeithio ar y lefel ofynnol o adnoddau yn y dyfodol, e.e. pwysau posibl ar y gyllideb neu danwariant | Y Tîm Partneriaeth i'w ystyried | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol |

***Trefniadau Hysbysu Eraill***

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu Timau Partneriaeth yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol ynghylch unrhyw benderfyniadau eraill maent wedi'u gwneud neu'n debygol o'u gwneud yn ystod y chwarter nesaf y byddent wedi'u hatgyfeirio'n flaenorol at Lywodraeth Cymru.

**Atodiad C**

**Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyaeth a'r Terfynau Dirprwyo**

| Pwnc | Terfyn Dirprwyo |
|---|---|
| Tâl, codiadau cyflog a thelerau ac amodau staff | Gellir dirprwyo diwygiadau i'r telerau ac amodau cyffredinol i'r Cwmni neu mae'n bosibl y bydd angen cymeradwyaeth Weinidogol |
| Hawl trosglwyddo arian y tu hwnt i uchafsymiau penodedig | Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth ac ystyriaeth gyda thîm cyllid y grŵp |
| Unrhyw fenthyca, rhoi benthyciadau, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau | Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth ac ystyriaeth gyda thîm cyllid y grŵp |
| Prosiectau cyfalaf | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Prosiectau TG | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Contractau ymgynghoriaeth | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Amrywiadau tendr unigol | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Rhoddion, lletygarwch, gwobrau ac yn y blaen | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Nawdd | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Colledion a thaliadau arbennig | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |
| Cadw derbynebau dros yr uchafswm a nodir yn y llythyr cyllido | Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth |
| Cario drosodd | Yn ystod y flwyddyn – 4% o gyfanswm y Cymorth Grant /cyfanswm incwm blynyddol<br>Diwedd y flwyddyn – 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/cyfanswm incwm blynyddol |

| | |
|---|---|
| [Grantiau] | I'w cadarnhau gan Adnodd mewn cydweithrediad â'r tîm partneriaeth a thîm cyllid y grŵp |

**Atodiad Ch: Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu**

## MEMORANDWM AR GYFER Y SWYDDOG CYFRIFYDDU AR GYFER ADNODD

## CYFRIFOLDEBAU SWYDDOG CYFRIFYDDU CWMNI YM MHERCHNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU

### Cyflwyniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi cyfrifoldebau uwch swyddog (y Prif Weithredwr neu lefel gyfatebol fel arfer) cwmni ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru (y cwmni) sydd wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cwmni hwnnw. Mae ei gynnwys hefyd yn berthnasol i uwch swyddogion cyrff cyhoeddus nad oes Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar eu cyfer.
2. Dynodir Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cwmnïau hynny sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hariannu gan grant mawr neu gymorth grant neu lle mae cyfrifon y cwmni i'w cyflwyno gerbron Senedd Cymru. Pan fydd er budd atebolrwydd cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dynodi Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cwmni sy'n derbyn ei brif gyllid o ffynonellau eraill. Mae'n egwyddor bwysig, waeth beth fo ffynhonnell y cyllid, bod Swyddogion Cyfrifyddu yn atebol i Senedd y DU a'r Senedd am yr holl adnoddau sydd o dan eu rheolaeth.
3. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (PSC) ar gyfer Gweinidogion Cymru, a ddynodir yn unol ag adran 129 (6) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), fel y'i diwygiwyd, yn gyfrifol am sicrhau penodiad Swyddogion Cyfrifyddu priodol ar gyfer cyrff cyhoeddus a chwmnïau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn eu tro, mae'r PSC wedi dirprwyo i'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, a ddynodir o dan adran 133 (2) Deddf 2006, y cyfrifoldeb am ddynodi uwch swyddogion cwmnïau y mae eu Grwpiau'n goruchwylio yn Swyddogion Cyfrifyddu.

### Cyfrifoldebau Cyffredinol y Swyddog Cyfrifyddu

4. Mae eich dynodiad fel Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu'r ffaith eich bod yn gyfrifol, o dan y bwrdd (p'un a ydych yn aelod o'r bwrdd ai peidio) am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y cwmni ac ar gyfer ei weithdrefnau mewn materion ariannol a materion eraill.
5. Rhaid i chi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y cwmni yn gyffredinol; bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo cynnal busnes yn effeithlon a darbodus ac yn diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol ledled y cwmni; a bod ystyriaethau ariannol, gan gynnwys hyfywedd a chynaliadwyedd, yn cael eu hystyried yn llawn mewn penderfyniadau ar gynigion polisi.

**Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog Cyfrifyddu**

6. Hanfod rôl y Swyddog Cyfrifyddu yw cyfrifoldeb personol dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus yr ydych yn atebol amdano; dros gadw cyfrifon priodol; dros weinyddiaeth ddoeth a darbodus; dros osgoi gwastraff a gormodedd; a thros ddefnyddio'r holl adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.

7. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i chi:

   a. llofnodi'r cyfrifon sydd wedi'u haseinio i chi, ac wrth wneud hynny, derbyn cyfrifoldeb personol dros eu cyflwyniad priodol fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth, y cyfarwyddyd cyfrifon a'r canllawiau perthnasol;

   b. sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Ddogfen Fframwaith, bod gweithdrefnau ariannol priodol yn cael eu dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cynnal ar ffurf sy'n addas i ofynion y rheolwyr yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig o dan y Deddfau Cwmnïau neu ddeddfwriaeth a dulliau cyfrifyddu perthnasol eraill;

   c. sicrhau bod yr adnoddau yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol a da (gweler paragraff 9) a'u diogelu, gyda gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod sydd yn nwylo unrhyw swyddog;

   ch. sicrhau bod yr asedau yr ydych yn gyfrifol amdanynt, er enghraifft tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd ac offer yn cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, a chyda gwiriadau yn ôl yr angen;

   d. sicrhau, wrth ystyried cynigion polisi sy'n gysylltiedig â'r gwariant neu incwm yr ydych yn gyfrifol amdano, bod pob ystyriaeth ariannol berthnasol, gan gynnwys ymarferoldeb a chynaliadwyedd, yn cael eu hystyried, bod gwerth am arian y cynnig yn cael ei asesu yn unol â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Trysorlys "Y Llyfr Gwyrdd: *Arfarnu a Gwerthuso mewn Llywodraeth Ganolog*"; rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion priodoldeb a rheoleidd-dra; a defnyddir technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau o ansawdd da yn ôl yr angen i olrhain cynnydd a, lle bo angen, addasu cynnydd. Lle bo angen, dylid dod â'r ystyriaethau hynny i sylw'r Bwrdd;

   dd. sicrhau bod risgiau (i gyflawni amcanion busnes, rheoleidd-dra a phriodoldeb neu werth am arian) yn cael eu nodi, bod eu harwyddocâd yn cael ei asesu, a bod systemau priodol ar waith i'w rheoli;

   e. sicrhau bod eich dulliau o reoli cyfleoedd a risgiau yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes eich sefydliad a'r archwaeth am risg rydych chi'n barod i'w dderbyn;

   f. bod trefniadau ar waith i drechu twyll a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion a amheuir;

   ff. llofnodi'r Datganiad Llywodraethu.

8. Rhaid i chi sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal yn eich sefydliad i gefnogi cyflawniad ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion a dylech adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd. Rhaid i chi allu sicrhau'r Senedd a'r cyhoedd o'r safonau uchel o uniondeb wrth reoli arian cyhoeddus yn eich sefydliad. Adroddir ar hyn yn eich Datganiad Llywodraethu blynyddol.

9. Dylech hefyd sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel:

   a. yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hamcanion, a'r dull o asesu a, lle y bo'n bosibl, mesur allbynnau neu berfformiad mewn cysylltiad â'r amcanion hynny;

   b. yn derbyn cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau (y rhai a ddefnyddir gan eu gorchmynion eu hunain ac unrhyw rai sydd ar gael i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r cwmni) gan gynnwys craffu beirniadol ar allbwn a gwerth am arian;

   c. yn meddu ar y wybodaeth (yn benodol ynglŷn â chostau), hyfforddiant a mynediad at y cyngor arbenigol sydd ei angen arnynt i arfer eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

10. Rhaid i chi sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer dirprwyo yn hybu rheolaeth dda a'u bod yn cael eu cefnogi gan y staff angenrheidiol sydd â chydbwysedd priodol o sgiliau. Dylai trefniadau ar gyfer archwilio mewnol gydymffurfio â'r amcanion, y safonau a'r arferion a nodir yn "Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth" Trysorlys EM."

**Gweithio mewn Partneriaeth**

11. Mae cyrff cyhoeddus yn gweithio fwyfwy mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni eu nodau a'u hamcanion strategol. Dylech sicrhau bod effaith ehangach y gweithgareddau rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu nodi'n briodol a'u bod yn cael eu hystyried lle y bo'n briodol. Gall y cwmni gyfrannu at weithgaredd ar y cyd sy'n cael ei arwain gan sefydliad arall (boed hynny yn y sector cyhoeddus neu breifat) wrth geisio cyflawni eu hamcanion.

12. Gellir ystyried bod y cyfraniad yn briodol er na fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion ehangach eich sefydliad. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen i chi ddangos bod y cyfranogiad yn cynrychioli gwerth da am arian ar y cyfan a bod rheolaethau priodol ar waith i ddiogelu priodoldeb ac i ddarparu atebolrwydd priodol.

13. Dylai Swyddogion Cyfrifyddu gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu gwasanaeth drwy gydweithio. Lle byddwch chi a Swyddog Cyfrifyddu arall yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd, mae angen dogfennu'r llinellau cyfrifoldeb yn glir er mwyn sicrhau eglurder llwyr o ran yr hyn y mae pob un ohonoch yn gyfrifol ac yn atebol amdano.

**Rheoleidd-dra a Phriodoldeb Gwariant**

14. Mae gennych gyfrifoldeb penodol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Senedd y DU a gofynion y Senedd wrth reoli gwariant ac unrhyw ofynion a osodir gan Lywodraeth Cymru. Gofyniad sylfaenol yw mai dim ond i'r graddau ac at y dibenion a awdurdodwyd gan y Senedd y dylid defnyddio'r arian. Rhaid tynnu sylw'r Senedd at golledion neu daliadau arbennig, trwy nodi'r cyfrif perthnasol yn briodol.

15. Rydych yn gyfrifol am sicrhau bod cymeradwyaeth benodol wedi'i sicrhau ar gyfer gwariant gan Lywodraeth Cymru ym mhob achos pan fydd ei hangen, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys cyflogau, pensiynau ac amodau gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant nad yw wedi'i gwmpasu gan unrhyw awdurdodau a ddirprwywyd gan Lywodraeth Cymru i'r cwmni. Nid yw awdurdod dirprwyedig yn dileu'r rhwymedigaeth i gyflwyno pob cynnig sy'n newydd, yn ddadleuol neu sydd â chanlyniadau i Lywodraeth Cymru. Rydych hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau digonol yn bodoli ar gyfer casglu a dwyn i gyfrif ar ffurf briodol yr holl incwm a derbynebau o unrhyw fath yr ydych yn gyfrifol amdanynt.

**Cyngor i'r Bwrdd**

16. Rhaid i chi gymryd gofal i dynnu sylw'r bwrdd at unrhyw wrthdaro rhwng eu cyfarwyddiadau a'ch dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Ni allwch dderbyn nodau neu bolisïau'r bwrdd heb archwiliad. Nid oes ffurflen benodol ar gyfer cofrestru gwrthwynebiadau, er y dylech fod yn benodol ynghylch eu natur. Y prawf terfynol yw a allech gyfiawnhau'r gweithgaredd arfaethedig pe gofynnwyd i chi ei amddiffyn yn gyhoeddus.

17. Os bydd y bwrdd, er gwaethaf eich cyngor, yn penderfynu parhau â chwrs rydych chi wedi cynghori yn ei erbyn, dylech ofyn i'r bwrdd am gyfarwyddyd ffurfiol i fwrw ymlaen, gan nodi'r posibilrwydd o ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd (PAPAC). Mae cyfarwyddiadau o'r math hwn yn brin. Nodir enghreifftiau o ble mae'r weithdrefn hon yn briodol isod:

- **Rheoleidd-dra** – os bydd cynnig y tu hwnt i bwerau eich sefydliad, cydsyniad Senedd y DU neu'r Senedd, dirprwyaethau Llywodraeth Cymru neu os bydd yn anghydnaws â'r cyllidebau gwariant y cytunwyd arnynt;
- **Priodoldeb** – pe byddai cynnig yn mynd yn groes i weithdrefnau neu ddisgwyliadau rheolaeth Senedd y DU neu'r Senedd;
- **Gwerth am Arian** – pe byddai cynnig amgen, neu beidio gwneud unrhyw beth, yn sicrhau gwerth am arian gwell: er enghraifft, canlyniad rhatach, o ansawdd uwch neu fwy effeithiol;
- **Ymarferoldeb** - pan fydd amheuaeth ddifrifol ynglŷn â'r gallu i weithredu'r cynnig yn gywir, yn gynaliadwy neu i'r amserlen fwriadedig.

18. Pan wneir cyfarwyddyd, rhaid i chi:

- Dilyn cyfarwyddyd y bwrdd heb oedi pellach;
- Anfon copïau o’r papurau perthnasol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a’ch tîm partneriaeth. Bydd ACC fel arfer yn tynnu sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) at y mater. Cyn belled â'ch bod wedi dilyn y weithdrefn hon, gellir disgwyl i'r PAPAC gydnabod nad ydych chi, yn eich rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, yn dwyn unrhyw gyfrifoldeb personol am y trafodiad. Rhaid i chi drefnu i fodolaeth y cyfarwyddyd gael ei gyhoeddi yn yr adroddiad a'r cyfrifon, oni bai bod rhaid cadw'r mater yn gyfrinachol;
- Os gofynnir i chi, er enghraifft yn ystod gwrandawiad PAPAC, esbonio cwrs gweithredu’r bwrdd. Mae hyn yn parchu hawl y bwrdd i gyngor didwyll wrth ddiogelu ansawdd trafodaeth fewnol yr un pryd.

**Ymddangosiad gerbron y PAPAC neu Bwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus**

19. Gall ACC a’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eich sefydliad wrth ddefnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Fel Swyddog Cyfrifyddu, efallai y cewch eich galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor priodol o bryd i'w gilydd, fel arfer gyda'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu o bosibl gyda'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, i roi tystiolaeth ar yr adroddiadau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn, ac i ateb cwestiynau'r Pwyllgorau ar eich adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon.

20. Gall Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus ofyn i PAPAC gasglu tystiolaeth ar eu rhan ac adrodd yn ôl ar y dystiolaeth a dderbyniwyd. Fel Swyddog Cyfrifyddu, efallai y cewch eich cynorthwyo gan swyddogion eraill, a allai ymuno i roi’r dystiolaeth. Wrth roi tystiolaeth, disgwylir i chi ddarparu esboniadau i’r naill bwyllgor neu’r llall ynglŷn ag unrhyw arwyddion o wendid yn y materion a drafodwyd ym mharagraffau 4-10 uchod, y mae’r ACC neu’r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw atynt neu eu bod yn dymuno eich holi yn eu cylch.

21. Yn ymarferol, bydd Swyddog Cyfrifyddu fel arfer wedi dirprwyo awdurdod yn eang, ond ni all am y rheswm hwnnw wadu cyfrifoldeb. Hefyd, yn ôl confensiwn, ni fydd y Swyddog Cyfrifyddu presennol yn gwrthod ateb cwestiynau lle digwyddodd y digwyddiadau cyn ymgymryd â'r swydd: gellir disgwyl i'r Pwyllgorau beidio â phwysleisio cyfrifoldeb personol y deiliad presennol mewn amgylchiadau o'r fath.

22. Rhoddir pwyslais mawr ar gywirdeb tystiolaeth, a chyfrifoldeb tystion i sicrhau hyn. Fel Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod yn cael eich briffio'n ddigonol ac yn gywir ar faterion sy'n debygol o godi yn y cyfarfod. Gellir gofyn i'r Pwyllgorau am ganiatâd i gyflenwi gwybodaeth nad yw o fewn eich gwybodaeth uniongyrchol trwy nodyn diweddarach. Os darganfyddir wedi hynny fod y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgorau wedi cynnwys gwallau, dylid hysbysu'r Pwyllgorau amdanynt cyn gynted â phosibl.

23. Yn gyffredinol, mae'r rheolau a'r confensiynau sy'n llywodraethu ymddangosiadau swyddogion gerbron Pwyllgorau Seneddol yn berthnasol i'r Pwyllgorau hyn, gan gynnwys y confensiwn cyffredinol nad yw swyddogion yn datgelu'r cyngor a roddir i'r bwrdd. Er hynny, mewn achosion pan roddwyd cyfarwyddyd ynglŷn â mater o briodoldeb neu reoleidd-dra, byddai cyngor y Swyddog Cyfrifyddu, a'i wrthodiad gan y bwrdd, yn cael ei ddatgelu.

24. Mewn achosion pan fydd cyngor Swyddog Cyfrifyddu wedi'i wrthod mewn mater o werth am arian neu ymarferoldeb (yn hytrach na rheoleidd-dra neu briodoldeb) bydd ACC neu'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi esbonio'n glir i'r Pwyllgor bod cyngor y Swyddog Cyfrifyddu wedi'i wrthod. Fodd bynnag, dylech osgoi datgelu'r cyngor a roddwyd neu ddatgysylltu o'r penderfyniad. Yn amodol ar gytundeb y bwrdd, lle bo'n briodol, dylech fod yn barod i esbonio penderfyniad o'r fath a gellir gofyn i chi fodloni'r Pwyllgor bod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol wedi'u dwyn i sylw'r bwrdd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yna, mater i'r Pwyllgor fydd mynd ar drywydd y mater ymhellach gyda'r bwrdd os yw'n dymuno.

**Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu**

25. Fel Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod ar gael yn gyffredinol i ymgynghori ac, mewn unrhyw gyfnod dros dro o ddiffyg argaeledd oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, y bydd uwch swyddog yn y sefydliad a all weithredu ar eich rhan os oes angen.

26. Os yw swydd y Prif Weithredwr (neu swydd ar lefel gyfwerth) yn wag neu os daw'n amlwg eich bod chi fel y Swyddog Cyfrifyddu mor analluog fel na fyddwch yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylid hysbysu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol fel y gellir dynodi Swyddog Cyfrifyddu dros dro yn ffurfiol, tra bo'r Swyddog Cyfrifyddu yn dychwelyd neu Swyddog Cyfrifyddu newydd yn cael ei benodi.

27. Mae’n bosibl y bydd disgwyliad i PAPAC neu Bwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus ohirio gwrandawiad os na fydd y Swyddog Cyfrifyddu ar gael dros dro. Pan na fyddwch chi, fel Swyddog Cyfrifyddu, oherwydd anallu neu absenoldeb, yn gallu llofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, gellir cyflwyno copïau heb eu llofnodi tra byddwch yn disgwyl eich ffurflen. Os na allwch lofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w hargraffu, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu dros dro lofnodi yn lle hynny.

**Atodiad D**

**Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau ar draws y Llywodraeth**

- Y ddogfen hon;
- Cylch Gwaith y Gweinidog i'r corff;
- "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru";
- Memorandwm Llywodraeth Cymru "Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu";
- Cyfarwyddyd Cyfrifon y corff;
- Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Dda;
- "Safonau Archwiliad Mewnol y Llywodraeth" Trysorlys Ei Fawrhydi;
- "Rheoli'r Risg o Dwyll" Trysorlys EF;http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf
- "Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol – Canllawiau Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon" Trysorlys EF;
- "Bancio Adrannol: Canllaw ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth" Trysorlys EF (cyhoeddwyd fel Atodiad 5.7 "Rheoli Arian Cyhoeddus");http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_annex5.7.pdf
- "Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian" Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg_Prop_and_VfM-November04.pdf
- "Llyfr Gwyrdd – Arfarnu a Gwerthuso mewn Llywodraeth Ganolog"; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf
- Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/auditcommitteehandbook140307.pdf
- "Llyfr Magenta – Nodiadau Canllaw ar Werthuso Polisi" Swyddfa'r Cabinet; http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/magenta_book/index.asp http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/docs/profpolicymaking.pdf
- Cod Ymarfer i Gyrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet;
- "Canllawiau ar gyfer Arfer da wrth Werthuso" Cymdeithas Werthuso'r DU; http://www.evaluation.org.uk/resources/guidelines.aspx
- "Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol" a'i brotocolau cysylltiedig, Awdurdod Ystadegau'r DU; http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/code-of-practice-for-official-statistics.pdf
- "Revitalising Health and Safety" y Comisiwn Iechyd a Diogelwch/yr Adran yr Amgylchedd; https://www.corporateaccountability.org.uk/dl/strategy.pdf
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llythyrau'r "Prif Swyddog Gweithredol" presennol;

- llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfrifo” presennol;
- llythyrwyr at reolwyr gan archwilwyr allanol;
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru;
- yr argymhellion hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, Pwyllgorau eraill y Senedd; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ’r Cyffredin, Pwyllgorau Seneddol eraill neu awdurdod Senedd y DU sydd wedi’u derbyn gan Lywodraeth Cymru sy’n berthnasol i’r corff.

Yn ogystal, wrth gynnal ei fusnes, bydd y busnes yn sicrhau, ymhlith eu dyletswyddau eraill, eu bod:

- yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau’r Gymraeg a osodir ar y corff gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu, lle nad yw corff yn atebol i gydymffurfio â Safonau, o ran ei Gynllun Iaith Gymraeg lle mae gan y corff Gynllun Iaith. Lle nad oes Cynllun o’r fath yn bodoli mewn corff, dylai’r corff gydymffurfio â thelerau Safonau’r Gymraeg a bennir yn yr hysbysiadau cydymffurfio a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg o bryd i’w gilydd. Gellir gweld copi o’r fersiwn ddiweddaraf ar wefan Comisiynydd y Gymraeg;
- yn arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy’n gydnaws â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r iaith Gymraeg, fel y’i nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru, fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd;
- yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth yn ôl yr angen gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- ei swyddogaethau yn cefnogi’r nodau a’r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

| **Nodau Llesiant** |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru iachach |
| Cymru sy’n fwy cyfartal |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru sydd â bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| **Pump Egwyddor Gweithio** | |
|---|---|
| Hirdymor | Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |

| | |
|---|---|
| Atal | Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| Integreiddio | Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, neu ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| Cydweithrediad | Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Cyfranogiad | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff. |

- yn dilyn y dull gweithredu o fod yn agored a nodir yng Nghod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth Llywodraeth Cymru;
- rhoi ystyriaeth briodol i God Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;
- eu caffaeliadau'n cael eu gweithredu gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a nodir yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru.
- O ran bod yn agored, lle bo'n ymarferol ac yn briodol, disgwylir i'r corff gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Rhaid i o leiaf un cyfarfod y flwyddyn fod yn gyfarfod agored. Lle bo'n ymarferol ac yn briodol, bydd y corff yn rhyddhau adroddiadau cryno neu'n sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd.

O ran iechyd, diogelwch a lles, rhaid i'r corff:

- cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol o ran iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn ymwneud â'i holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau;
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau mae'n eu hariannu ac unrhyw gontractwyr ac isgontractwyr i'r sefydliadau hynny gydymffurfio yn yr un modd;
- cydymffurfio'n llawn â pholisïau Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a lles.